



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales



**Environment
Agency**

Heriau a Dewisiadau

Ymgynghoriad ar y crynodeb o broblemau rheoli dŵr
pwysig i Gymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac
Ardal Basn Afon Dyfrdwy

RHAGAIR

Mae'r adnoddau naturiol yng Nghymru yn eithriadol o bwysig, o'r mynyddoedd a'r coetiroedd gwyllt, i'r tirweddau hardd, yr arfordir, a'r bywyd gwyllt amrywiol. Maent yn hanfodol ar gyfer ein goroesiad ac yn rhoi'r pethau sylfaenol sydd eu hangen arnom i fyw: aer glân, dŵr glân, a bwyd. Maent yn creu swyddi i filoedd o bobl gan greu cyfoeth a ffyniant ac mae ganddynt gysylltiad annatod â diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Maen nhw'n rhoi gwell ansawdd bywyd i ni i gyd ac yn creu cyfleoedd i fwynhau'r awyr agored yn erbyn cefndir o harddwch naturiol a threftadaeth Cymru, ac mae pobl yn dod o bell ac agos i'w profi. Mae angen i ni ofalu am yr adnoddau naturiol hyn a'r hyn a ddarparant ar ein cyfer: mae digon o ddŵr o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer organebau byw ac i gefnogi bywyd gwyllt amrywiol Cymru.

Sefydlodd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr fframwaith trosfwaol a chylch cynllunio ar gyfer basnau afonydd a dyma sut rydym yn atal dirywiad mewn dyfroedd, yn ceisio'u hadfer a sicrhau ein bod yn rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy. Rydym yn gweithio gydag eraill ar draws y sector cyhoeddus a phreifat i wneud hyn, i sicrhau bod yr amgylchedd ac adnoddau dŵr naturiol yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a phwysau arall arnynt yn well.

Mae hyn bellach yn dod o fewn cyd-destun deddfwriaethol ehangach at y diben a'r egwyddorion a nodir yn 'Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016' ac amcanion 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'. Mae SoNaRR yn disgrifio rhywfaint o'r cynnydd a wnaed i wella ansawdd dŵr a chysylltedd ein hafonydd yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, ond daeth i'r casgliad nad ydym yn llwyddo i reoli dŵr yn gynaliadwy hyd yma. Mae llawer o heriau i'w goresgyn o hyd; mae twf y boblogaeth, newid yn yr hinsawdd a'r cyfnod economaidd heriol yn golygu bod pwysau parhaus ar yr amgylchedd naturiol. Bydd datblygu Datganiadau Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio gydag eraill i ddarparu tystiolaeth ar y galw am ddŵr a'r cyfleoedd ar lefel leol, er mwyn llywio ein penderfyniadau ein hunain a phenderfyniadau rhanddeiliaid a phartneriaid. Bydd hyn yn ein helpu i ganolbwyntio ar ddull mwy cydweithredol ac integredig o reoli adnoddau naturiol, gan edrych ar yr hyn sydd wrth wraidd y problemau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i atebion hirdymor, sydd hefyd yn ein helpu i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i lunio i rannu trosolwg o'r problemau rheoli dŵr sylweddol a nodwyd ledled Cymru ac mewn ardaloedd basn afon er mwyn llywio'r camau hynny sydd eu hangen i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol ac i rannu tystiolaeth ynghylch lle mae angen gweithredu. Rydym hefyd yn gofyn am eich cymorth i ddiweddarau ein hasesiad o gynaliadwyedd dŵr croyw wrth baratoi ar gyfer SoNaRR 2. Drwy gymryd rhan, gallwch chwarae rhan weithredol i helpu i ddiogelu a chyflwyno gwelliannau pellach er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, iechyd a cydnerthedd amgylchedd dŵr Cymru.



Ruth Jenkins
Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol

Cynnwys

RHAGAIR	2
1.0 Cyflwyniad.....	4
2.0 Y dull gweithredu yng Nghymru	5
2.1 Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.....	6
2.2 Tystiolaeth i gefnogi rheoli dŵr yn gynaliadwy	8
2.3 Cynefinoedd a rhywogaethau sy'n ddibynnol ar ddŵr croyw	9
3.0 Heriau a Dewisiadau: Cymru	9
3.1 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol: cyffredinol	10
3.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol: Cymru.....	11
3.3 Materion ychwanegol sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr.....	15
3.4 Newid yn yr Hinsawdd.....	17
4.0 Heriau a Dewisiadau: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.....	19
4.1 Trosolwg.....	19
4.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol	20
5.0 Heriau a Dewisiadau: Ardal Basn Afon Dyfrdwy	21
5.1 Trosolwg.....	21
5.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol	22
6.0 Mwy o wybodaeth	22
7.0 Trefniadau ymgynghori	23
Atodiad A: Ffeithiau ac Ystadegau ar gyfer Cymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy	25
Atodiad B: Rhaglen o Fesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion rheoli dŵr sylweddol.	34
Atodiad C: Gweithio gyda'n Gilydd - crynodeb o ymatebion	40

1.0 Cyflwyniad

Mae dŵr yn hanfodol i fywyd. Mae dŵr yn galluogi'r amgylchedd naturiol i ffynnu, a busnesau, amaethyddiaeth a'r economi i dyfu ac i fod yn llewyrchus. Mae afonydd, llynnoedd, aberoedd, ardaloedd arfordirol, gwlyptiroedd a dŵr daear yn cynnig llawer o fuddion gwahanol i gymdeithas – o gyflenwi dŵr yfed a chefnogi pysgodfeydd i ddarparu adnodd hanfodol ar gyfer busnes ac amaethyddiaeth, llwybrau trafnidiaeth a ffynhonnell hamdden sy'n hybu llesiant.

Mae amgylcheddau dŵr iach hefyd yn helpu i ddiogelu'r genedl rhag llifogydd a sychder ac maent yn rheoleiddio ansawdd yr aer a'r hinsawdd. Mae pawb yn cael budd o ddefnyddio dŵr a mwynhau'r amgylchedd dŵr, ond mae'n hanfodol bod y ddau yn cael eu defnyddio a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Trwy wneud hyn, bydd yr amgylchedd naturiol, busnesau a thwf economaidd yn cael eu diogelu a bydd y manteision hirdymor i iechedd a lles yn cael eu gwella.

Y ffordd orau o ddiogelu a gwella'r amgylchedd dŵr yw cael pawb i ddeall y gwahaniaeth y gallant ei wneud drwy fynd ati i gyfrannu. Nid yn unig mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio â'r gofynion o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017, ond mae hefyd yn rhoi cyfle pwysig i ymgysylltu â chi ar y gwaith rydym yn ei wneud mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - sef Datganiadau Ardal a'r 2^{il} Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Mae'r ymgynghoriad hwn yn disgrifio'r materion pwysig o ran rheoli dŵr ac mae'n gam pwysig yn y gwaith o reoli'r amgylchedd dŵr, gan roi'r cyfle i chi ddylanwadu ar y dull gweithredu yn eich ardal leol. Mae Adran 2 y ddogfen yn amlinellu'r cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru, mae Adran 3 yn disgrifio'r problemau ar draws Cymru, Adran 4 y problemau yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (RBD) ac Adran 5 y problemau yn RBD Dyfrdwy. O'r tri RBD yng Nghymru, mae dau yn croesi'r ffin â Lloegr (Dyfrdwy a Hafren). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyhoeddi'r ymgynghoriadau ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ar gyfer Ardal Basn Afon Hafren.

Yna, bydd eich ymatebion yn cael eu bwydo i'r diweddariad nesaf i'r Cynllun Rheoli Basn Afon (RBMP), Datganiadau Ardal a SoNaRR 2. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, bydd angen i chi nodi pa ardal(oedd) mae'ch ymateb yn berthnasol iddi (iddynt). Rydym yn cynnig peidio â chyhoeddi dogfen ar wahân yn rhoi ymatebion i'r ymgynghoriad, ond byddwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion yn y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft yn 2020.

Yn 2018 buom yn ymgynghori â chi ar y ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd a oedd yn nodi'r datganiad o gamau ac amserlen ar gyfer trydydd cylch y cynlluniau rheoli basn afon. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng mis Mehefin 2018 a mis Rhagfyr 2018 a gallwch ddod o hyd i grynodeb o'r ymatebion yn Atodiad C.

2.0 Y dull gweithredu yng Nghymru¹

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr bellach yn rhan o gyd-destun deddfwriaethol ehangach yng Nghymru, ac mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswyddau statudol newydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cynnwys gofyniad i CNC ymgorffori egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) ym mhopeth a wnawn. Drwy gymhwyso'r egwyddorion hyn gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfrannu at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae hefyd yn nodi fframwaith ailadroddol i sicrhau y bydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol (NRP) a Datganiadau Ardal.

Cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o SoNaRR yn 2016, gan dynnu sylw at y pwysau sydd ar ein hadnoddau naturiol a chysylltu cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru. Gan ddefnyddio'r dystiolaeth hon, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Polisi Adnoddau Naturiol yn 2017, gan amlinellu'r tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru:

- 1) Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- 2) Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- 3) Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le

Mewn ymateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhestru wyth her a phedwar cyfle. Mae detholiad o'r rhai sy'n arbennig o berthnasol i reoli dŵr wedi'u rhestru isod:

- Gwella ansawdd dŵr a sicrhau digon ohono
- Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth – drwy ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth
- Lleihau'r perygl o lifogydd
- Hybu dulliau o liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo drwy ddulliau gweithredu seiliedig ar ecosystemau
- Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydroddaearegol i leihau'r perygl o lifogydd a gwella ansawdd dŵr a faint ohono sydd i gael
- Adfer ein hucheldir a'i reoli o safbwynt diogelu buddion bioamrywiaeth, carbon, dŵr, perygl lifogydda hamdden

¹ Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r mesurau a weithredir mewn cyrff dŵr yng Nghymru yn unig. I gael gwybodaeth am ddeddfwriaeth a mesurau perthnasol yn Lloegr, trowch at ddogfen ymgynghori 'Challenges and Choices' Asiantaeth yr Amgylchedd a fydd yn cael ei chyhoeddi yn yr hydref 2019.

2.1 Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal, sy'n gorfod ymateb i'r blaenoriaethau cenedlaethol, a'r heriau a'r cyfleoedd yn lleol. CNC yw'r sefydliad arweiniol sy'n gyfrifol am baratoi saith Datganiad Ardal (chwech ar y tir ac un morol), ac rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y sail dystiolaeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel leol a chenedlaethol. Mae cyd-gynhyrchu Datganiadau Ardal gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn gam pwysig i gefnogi'r gwaith o weithredu'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd a amlinellir ym mhob un ohonynt.

Bydd Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio hefyd i lywio gwaith cynllunio busnes a gwaith partneriaeth CNC gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer ein cyrff dŵr, a chânt eu defnyddio i ddylanwadu ar amrywiaeth o gynlluniau a pholisïau cyhoeddus i helpu i integreiddio rheoli dŵr yn gynaliadwy ar draws dulliau darparu eraill gan gynnwys cynlluniau defnydd tir, rheoli tir, perygl llifogydd a chynlluniau cwmnïau dŵr.


Am y rheswm hwn, yng nghynlluniau rheoli basn afonydd cylch 3, nid ydym yn bwriadu dewis cyrff dŵr wedi'u targedu yn unswydd at y diben o sicrhau canlyniadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ond rydym yn bwriadu ymgynghori ar restr o ddalgylchoedd sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i fynd i'r afael â buddion lluosog yn ogystal â gwelliannau i statws cyffredinol dŵr. Bydd proses ymgysylltu'r Datganiad Ardal yn ganolog i'r broses o ddewis y 'dalgylchoedd â chyfleoedd' hyn, felly rydym yn annog ymgynghoreion i ateb cwestiwn 1 yn yr ymgynghoriad hwn a chyfeirio at y broses o ddatblygu Datganiad Ardal a'r sail dystiolaeth. Ceir manylion ar sut i gael gafael ar y wybodaeth hon ar ddiwedd yr adran hon. Nod CNC yw cyhoeddi'r Datganiadau Ardal cyntaf erbyn gwanwyn 2020, gan ymgysylltu drwy gydol 2019. Cyfeiriwch at ffigur 1 isod i gael map o ardaloedd y Datganiadau Ardal a'r ardaloedd basn afon yng Nghymru i'w cymharu.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Datganiadau Ardal yn cynnwys gwybodaeth am yr adnoddau naturiol yn y lle hwnnw, y buddion a ddarperir, a'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy o fewn yr ardal honno. Mae [Canllaw Statudol ar ddiben CNC](#) yn datgan:

Mae datganiadau ardal yn chwarae rhan allweddol o ran cyflwyno elfen ofodol y Polisi ar Adnoddau Naturiol drwy nodi'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle gall gweithredu ar y raddfa gywir, yn uniongyrchol gan CNC a drwy eiriol gan eraill, gynyddu'r manteision a chanfod cydweithrediad ar draws meysydd polisi. Y bwriad yw bod gweithredoedd CNC ac eraill yn canolbwyntio ar yr ardaloedd a fyddai'n elwa fwyaf a bod angen nodi'r ardaloedd hyn yn glir, yn ogystal â'r rhesymeg pam eu bod wedi'u blaenoriaethu.

Felly mae Datganiadau Ardal yn sail dystiolaeth ac yn offeryn blaenoriaethu i'n helpu i nodi'n glir gyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel leol ledled Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddwyn ynghyd data, gwybodaeth a ffyrdd o ymgysylltu ag eraill i'n helpu i ddeall yn well gyflwr a thueddiadau adnoddau naturiol mewn ardal, y pwysau arnynt, y manteision a gawn, a chamau ataliol i atal dirywiad a meithrin cydnerthedd.

Ffigur 1: Map o Ffiniau Datganiadau Ardal ac Ardaloedd Basn Afon yng Nghymru



Mae'r dull deddfwriaethol uchod yn golygu bod angen i ni ystyried dŵr mewn cyd-destun ehangach o ran nodi'r materion, yr atebion posibl a'r camau gweithredu ataliol. Er mwyn gwneud y newid i reoli cynaliadwy yn bosibl, mae angen i ni ganolbwyntio ar sicrhau manteision lluosog sy'n cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau a gwella llesiant. Bydd Datganiadau Ardal yn helpu i gyfarwyddo'r sector ehangach i gydweithio er mwyn datblygu'r atebion cywir yn y lle cywir mewn ffordd integredig.

Yn unol â'r Polisi Adnoddau Naturiol, wrth weithio i greu dyfodol cadarn ar gyfer dŵr yng Nghymru, byddwn yn cynyddu rôl atebion sy'n seiliedig ar natur wrth reoli llifogydd a dŵr. Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le a fydd yn ein galluogi i ymateb i anghenion a chyfluoedd lleol, law yn llaw â chynyddu ein gallu i reoli adnoddau naturiol yn fwy effeithlon. Bydd gweithio mewn dalgylchoedd cyfan o'r tarddle i'r môr yn gwella gallu afonydd i ymateb i lifoedd uchel ac isel; lleihau'r perygl o lifogydd; gwella ansawdd dŵr a chefnogi gweithgareddau hamdden a gweithgarwch economaidd.

Mae ymgysylltu ar ddylunio a gweithredu Datganiadau Ardal yn digwydd drwy gydol y cyfnod ymgynghori ar gyfer Heriau a Dewisiadau, ac rydym am i'r ddwy broses weithio gyda'i gilydd i helpu i nodi cyfluoedd i ganolbwyntio ymdrech wrth sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru. Mae'r amgylchedd dŵr yn elfen hanfodol o amgylchedd naturiol Cymru, felly bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal a'r camau gweithredu cywir ar lawr gwlad i adfer dŵr ochr yn ochr â manteision eraill.

Er mwyn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu Datganiad Ardal, ewch i [dudalen we Datganiadau Ardal CNC](#) i gael gafael ar wybodaeth, tystiolaeth a chyfleoedd i gymryd rhan.

Dyma hefyd lle y gallwch gael mynediad at y 'Proffiliau Ardal', sy'n darparu dadansoddiad o reoli adnoddau naturiol a data economaidd-gymdeithasol fesul ardal. Mae'r proffiliau hyn yn llwyfan i gynorthwyo trafodaeth, gan roi crynodeb cyfun o gyflwr adnoddau naturiol ym mhob ardal. Mae hyn yn cynnwys data lefel uchel ar ansawdd dŵr a faint ohono sydd, ardaloedd gwarchoddedig e.e. Parthau Perygl Nitradau (NVZ) a chrynodeb o ddata'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr gyda hyperddolenni i [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#) am wybodaeth fanylach.

Noder nad 'adroddiadau' yw proffiliau ardal, ond eu bod wedi'u cynllunio i gynorthwyo trafodaeth ar y cyfleoedd lleol i fynd i'r afael â rheoli adnoddau naturiol. Mae'r data ynddynt yn dod o ffynonellau cyhoeddadedig eraill, a bydd pob proffil yn destun newid parhaus a rheolaidd. Am y rheswm hwn rydym yn annog rhanddeiliaid i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o dudalen we datganiadau ardal CNC.

2.2 Tystiolaeth i gefnogi rheoli dŵr yn gynaliadwy

Mae CNC wrthi'n asesu'r dystiolaeth ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn ei chynnwys yn yr 2^{il} argraffiad o'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020. Mae SoNaRR yn sail dystiolaeth genedlaethol gynhwysfawr a chanolog ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru, sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau i adlewyrchu'r amodau presennol.

Nod SoNaRR yw darparu llinell sylfaen ar gyfer y cynnydd sy'n digwydd yng Nghymru o ran cyflawni amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a mesur y cynnydd hwnnw wedyn. Mae'n darparu tystiolaeth i lywio'r broses o nodi risgiau, blaenoriaethau a chyfleoedd cenedlaethol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn awgrymu sut gellid sicrhau hyn yn y dyfodol. Ers SoNaRR 1, rydym wedi datblygu'r dull ar gyfer asesu a yw adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys pedwar amcan newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a fydd yn greiddiol i'r asesiad a nodir yn SoNaRR 2 a byddant yn darparu'r fframwaith ar gyfer dangosyddion newydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a fydd yn cael eu defnyddio i ddangos cynnydd.

Rydym wrthi'n cynnal asesiad o'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael am adnoddau dŵr croyw a morol i ddiweddarau SoNaRR 2. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau, tystiolaeth ansoddol, a data sy'n hanfodol i fesur cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru a'n defnydd o egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rydym yn croesawu cyfraniadau gan bartneriaid i'r sail dystiolaeth am ddŵr ac yn annog ymatebwyr i ateb cwestiwn 1 yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae CNC wedi llunio rhestr ddrafft o anghenion tystiolaeth am ddŵr, gan gategoreiddio bylchau yn ein gwybodaeth sy'n rhwystrau i reoli dŵr yn gynaliadwy. Rydym yn chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd ag eraill i ddiwallu'r anghenion tystiolaeth hyn, ac rydym yn croesawu unrhyw adborth. Er mwyn adolygu blaenoriaethau tystiolaeth drafft CNC ar gyfer dŵr ewch i'n [gwefan](#).

2.3 Cynefinoedd a rhywogaethau sy'n ddibynol ar ddŵr croyw

Cyflwynodd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd ddyletswydd gryfach o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys CNC. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, fel rhan o'u cynlluniau busnes a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Am ragor o wybodaeth gweler [Natur Hanfodol](#)

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn edrych ar fesurau sy'n cynnwys system yr afon gyfan, felly bydd cyflawni yn dod â manteision i fioamrywiaeth ac yn helpu i wella cydnerthedd ecolegol, gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau sydd wedi'u dynodi'n arbennig o bwysig,

A oes tystiolaeth ychwanegol rydych chi'n credu y dylid ei chynnwys wrth baratoi Datganiadau Ardal a'n hasesiad lefel Cymru nesaf o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SoNaRR 2)?

3.0 Heriau a Dewisiadau: Cymru

Roedd SoNaRR I yn amlinellu'r heriau i reoli'r amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Cafodd y Polisi Adnoddau Naturiol ei ddatblygu ar sail argymhellion SoNaRR I i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, ac ysgogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar le er mwyn manteisio ar gyfleoedd i weithio ar y cyd ag eraill wrth reoli ein hamgylchedd. Mae tystiolaeth am gyflwr ein hadnoddau naturiol yn allweddol i benderfyniadau sy'n seiliedig ar le, ac mae'r data a gasglwyd i lywio'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn un o'r ffynonellau cyfoethocaf o wybodaeth am statws ein hamgylchedd dŵr.

Mae yna ffynonellau eraill o wybodaeth sy'n ategu ac yn ychwanegu at y materion rheoli dŵr sylweddol a nodir isod, ac un o'r ffynonellau hyn yw [Cynlluniau Themstig Natura 2000](#), sy'n dangos bod nifer o'r un materion wedi'u nodi fel rhai sy'n atal safleoedd Natura 2000 rhag cyflawni 'Statws Ffatriol' e.e. llygredd gwasgareddig. Roedd yr adroddiadau diweddaraf o dan Erthygl 17 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cynnwys gwybodaeth am y prif bwysau a bygythiadau sy'n wynebu nodweddion dynodedig. Ar gyfer nodweddion dŵr croyw, roedd y pwysau a'r bygythiadau yn y categori uchel yn cynnwys newid ffisegol ac addasu llif hydrolegol, llygredd i ddŵr wyneb a dŵr daear, tynnu dŵr a rhywogaethau goresgynnol. Ar gyfer nodweddion aberol roeddent yn cynnwys llygredd dŵr (o ffynonellau morol ac arfordirol a gweithgareddau amaethyddol), addasu'r morlin ac amodau aberoedd ac arfordiroedd ar gyfer datblygu, defnyddio a diogelu seilwaith ac ardaloedd preswyl, masnachol, diwydiannol a hamdden (gan gynnwys gwaith a seilwaith amddiffynfeydd môr neu ddiogelu'r arfordir).

Mae dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer cyrff dŵr yn un o'r dangosyddion cenedlaethol a gaiff ei fonitro gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddefnyddir i lywio sut mae amgylchedd Cymru yn cyfrannu at lesiant pobl Cymru. Mae'r data hwn hefyd yn rhoi darlun hanfodol o'n cynnydd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Er ei bod yn helaeth, nid yw'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cynnwys pob

agwedd ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n ddibynol ar ddŵr, mae'n atal monitro rhai nodweddion a sylweddau penodol. Wrth ddatblygu SoNaRR 2, a thrwy ymgysylltu ar ddatblygu datganiadau ardal, mae CNC yn casglu tystiolaeth newydd gan randdeiliaid am gyflwr ein hamgylchedd dŵr. Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar anghenion defnyddwyr dŵr nad ydynt wedi'u trwyddedu, a thrwy ein prosiect bylchau yn y dystiolaeth am ddŵr, rydym yn gobeithio mynd i'r afael â rhai meysydd lle gellid gwella ein dealltwriaeth o'r amgylchedd dŵr.

Un enghraifft lle mae angen gwell tystiolaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau cyfun a hirdymor yw cyrff dŵr arfordirol ac aberol, sy'n cyflwyno her o ran deal y ddeinameg rhwng maethynnau, twf algâu cyflymach, a chydbwysedd annymunol mewn organebau. Rydym hefyd yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o effeithiau cyfunol cemegau ac effeithiau posibl cemegau sy'n dod i'r amlwg.

Mae prosesau hydrolegol fel symudiad dŵr oherwydd y llanw a thonnau (sy'n effeithio ar lefelau dŵr, cerrynt, cymysgu, a chludo gwaddod), tymheredd a halwynedd dŵr, yn cael dylanwad sylweddol ar gynefinoedd morol. Yn lleol neu'n rhanbarthol, gall datblygiadau neu fesurau rheoli effeithio ar y rhain, ond i raddau helaeth mae'r prosesau hyn y tu allan i reolaeth rheolwyr. Mae potensial i'r rhain gael eu dylanwadu'n sylweddol gan newid yn yr hinsawdd, a bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar raddfa, dosbarthiad, a chyflwr cynefinoedd morol ac arfordirol.

Mae'r adrannau canlynol yn manylu ar y materion rheoli dŵr sylweddol (SWMI) yng Nghymru, fel y nodir yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n bwysig i CNC neilltuo adrannau o'r ymgynghoriad hwn i'r materion rheoli dŵr sylweddol er mwyn sicrhau parhad â chynlluniau rheoli basn afon blaenorol, a chynorthwyo i adrodd ar bwysau sy'n ymddangos yn gyson o dan y penawdau hyn. Mae Adran 3.3. yn manylu ar faterion eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cynnwys o dan bob un o'r prif faterion rheoli dŵr sylweddol. Mae'r rhain, a ffactorau eraill yn hanfodol i gyflwyno'r darlun cyffredinol o gyflwr yr amgylchedd dŵr yng Nghymru. Bydd SoNaRR 2 yn dibynnu ar y materion rheoli dŵr sylweddol ac amrywiaeth o dystiolaeth arall i roi syniad o gynnydd Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol yr amgylchedd dŵr yn gynaliadwy. Byddwn hefyd yn dibynnu ar SoNaRR 2 ar y cyd ag adroddiadau cynnydd datganiadau ardal i asesu i ba raddau y mae Cymru yn bodloni'r blaenoriaethau, yr heriau a'r cyfleoedd a amlinellir yn y Polisi Adnoddau Naturiol

3.1 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol: cyffredinol

Mewn ymgynghoriad â'n partneriaid, rydym wedi datblygu rhestr o'r materion pwysig y credwn sy'n bygwth y defnydd o'r amgylchedd dŵr ar hyn o bryd a'r defnydd posibl ohono yn y dyfodol. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae'r rhain wedi cael eu categorio yn ôl confensiwn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac maent yn seiliedig ar nifer y cyrff dŵr sy'n methu oherwydd y pwysau hwnnw – nodwch y gall corff dŵr fethu am fwy nag un mater ac mai dim ond y materion rheoli dŵr sylweddol hynny lle mae'r sicrwydd naill ai 'wedi'i gadarnhau' neu'n 'debygol' rydym wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau mai dim ond data cadarn a ddefnyddir. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei hadolygu ers y cynllun rheoli basn afon diwethaf a'i diweddarau o'n data monitro a dosbarthu diweddaraf.

Sylwer y gall fod rhai cyrff dŵr o hyd lle nad yw achos y methiant yn hysbys; gall hyn fod naill ai o ganlyniad i fethiant newydd yn y dosbarthiad interim 2018 neu lle, er enghraifft,

mae gennym fewnbynau gwasgaredig sy'n anodd eu holrhain i darddiad. Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r rhain er mwyn sicrhau y gellir rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r materion.

Dylid nodi hefyd fod y ffigurau isod ar gyfer Cymru yn cynnwys cyrff dŵr yng Nghymru yn Ardal Basn Hafren Hafren a bod y ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer Dyfrdwy yn cynnwys rhai cyrff dŵr yn Lloegr.

3.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol: Cymru

Ar draws Cymru y pum mater pennaf yw **Addasiadau ffisegol, Llygredd o garthion a dŵr gwastraff, Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth, Llygredd o ardaloedd gwledig, a Llygredd o fwyngloddiau**. Rydym yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain ac yn blaenoriaethu gwaith fel y gallwn sicrhau gwelliannau amgylcheddol yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae gennym lawer mwy o waith i'w wneud o hyd, felly bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth a chydweithio. Am wybodaeth am yr ystadegau allweddol diweddaraf ar gyfer Cymru gweler Atodiad A.

Rhoddir crynodeb o'r prif fesurau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r materion hyn yn Atodiad B, sy'n cynnwys mesurau sy'n bodoli eisoes, mesurau diwygiedig a rhai mesurau newydd a gaiff eu hystyried ymhellach yn y Cynllun Rheoli Basn Afon drafft. Roedd Cynllun Rheoli Basn Afon 2015 yn cynnwys Rhaglen o Fesurau a oedd yn ofynnol i fodloni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer 2021. Fel rhan o adolygu a diweddarau'r Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer y trydydd cylch, bydd angen diwygio'r rhain. Mae'n bosibl y bydd rhai Rhaglenni Mesurau yn aros yn eu lle ac yn parhau drwy'r 3^{ydd} Cylch, bydd rhai wedi'u cwblhau neu bydd ddim eu hangen bellach ac efallai y bydd angen diweddarau geiriad rhai ohonynt i adlewyrchu statws presennol y mesur hwnnw. Bydd angen cofnodi ac adrodd unrhyw newidiadau er mwyn sicrhau llwybr archwilio tryloyw. At ddiben yr ymgynghoriad hwn mae cyfle i ddechrau edrych ar y Rhaglenni Mesurau a fydd yn cael eu bwydo i mewn i'r Cynllun Rheoli Basn Afon 2020 drafft cyn y byddant yn Rhaglenni Mesurau wedi'u diweddarau ar gyfer y 3^{ydd} cylch.

Addasiadau ffisegol

Mae'r rhain yn addasiadau y mae cymdeithas wedi eu gwneud ac yn parhau i'w gwneud i afonydd, llynnoedd, aberoedd a'n harfordir; y canlyniad yn y pen draw yw bod maint a siâp cynefinoedd naturiol yn cael eu newid. Gall addasiadau ffisegol gynnwys sythu sianeli yn artiffisial i hwyluso mordwyo neu reoli perygl llifogydd, strwythurau i leihau perygl llifogydd, strwythurau rheoleiddio llif i greu cronfeydd, argaeau a choredau, neu weithgareddau rheoli tymor byr fel carthu neu gael gwarded ar lystyfiant. Gallant hefyd achosi newidiadau i'r llif naturiol, lefel y dŵr ac achosi i waddod gronni'n ormodol a cholli cynefin sydd ei angen ar fywyd gwyllt i oroesi.

Mae llawer o'n trefi a'n dinasoedd wedi'u hadeiladu o amgylch yr amgylchedd dŵr ac mae angen i ni ddod o hyd i atebion cynaliadwy i sicrhau nad yw'r materion hyn yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd dŵr, yr economi, iechyd a llesiant. Mae'n bosibl bod rhai addasiadau hanesyddol wedi bod yn bresennol ers blynnyddoedd lawer, a gallant gyflawni amryfal ddibenion yn darparu buddiannau i gymdeithas. Os bydd yr addasiadau ffisegol hyn yn arwain at fethiant amcanion amgylcheddol, bydd angen mesurau lliniaru ymarferol a rhesymol. Nod y mesurau lliniaru hyn yw gwella ac adfer ansawdd yr amgylchedd presennol.

Wrth i'n poblogaeth dyfu ac wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd gynyddu, mae'r pwysau i addasu cyrff dŵr yn y dyfodol yn debygol o gynyddu wrth inni ddiogelu ein hunain a'n cartrefi rhag perygl cynyddol o lifogydd a sychder. Y dull o ymdrin ag addasiadau newydd yw sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr. Mae angen gwneud yr addasiadau hyn mewn ffordd sy'n sensitif i'r amgylchedd o fewn cyfyngiadau dichonoldeb technegol a chostau a helpu i wella ein gallu i wrthsefyll pwysau eraill gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, hamdden a physgota.

Mae addasiadau ffisegol yn broblem gyffredin: mae 241 o gyrff dŵr yn methu â chyrraedd statws da o'u herwydd. Mae rhai o'r rhain yn deillio o bwysau megis rhwystrau i fudo pysgod fel coredu (90 o gyrff dŵr), ond hefyd amddiffyn rhag llifogydd (9) a chronni dŵr (19).

Llygredd o garthion a dŵr gwastraff

Gall carthion a dŵr gwastraff gynnwys llawer o faethynnau (fel ffosforws a nitradau), amonia, metelau a sylweddau niweidiol eraill gan gynnwys firysau a bacteria. Gall y rhain gael effaith andwyol ar gynefinoedd ac effaith sylweddol ar ein defnydd o ddŵr, yn enwedig y defnydd hamdden o ddyfroedd ymdrochi a dyfroedd sy'n cynnal pysgod cregyn i'w bwyta. Mae'r holl ddŵr daear yn rhan o Ardal Warchoddedig Dŵr Yfed (DWPA). Gall gollyngiadau heb eu rheoleiddio i'r ddaear a charthffosydd o dan y wyneb sy'n gollwng achosi llygredd yn y tarddle a llygredd gwasgaredig mewn adnoddau dŵr daear. Mae llygryddion yn mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr drwy ollyngiadau o weithfeydd trin carthion a gorlifoedd carthion (naill ai wedi'u trin neu heb eu trin)

Yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb, mae gorlifoedd stormydd yn cyfrannu at yr effaith hefyd. Gall hyn effeithio ar yr amgylchedd dŵr ac ar ddyfroedd ymdrochi a pysgod cregyn yn arbennig. Mae newidiadau ym mhatrymau'r tywydd a dosbarthiad y boblogaeth, ynghyd â'r angen am dai newydd a safleoedd eraill, oll yn cyfrannu at bwysau ar y seilwaith sydd ar waith i ddelio â'n carthion a'n dŵr gwastraff. Gyda rhwydweithiau sy'n heneiddio a datblygiadau yn y dyfodol gall hyn orlwytho gweithfeydd, cynyddu nifer y gollyngiadau sy'n deillio o orlifoedd a chael effaith ar ein hamgylchedd. O ganlyniad, un o'r Rhaglenni Mesurau allweddol o hyd yw'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn drwy'r NEP.

Bydd gwella triniaeth elifiant a rheoleiddio gollyngiadau anghyfreithlon o danciau carthion sy'n eiddo preifat yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr amgylchedd dŵr. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyflenwad dŵr yfed yn cael ei ddiogelu rhag effeithiau niweidiol llygredd, a bydd cynefinoedd a nifer fawr o ardaloedd gwarchoddedig gan gynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, safleoedd Natura 2000 ac ardaloedd sensitif o dan y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD) yn elwa hefyd. Mae'r Adolygiad UWWTD yn nodi cyrff dŵr ledled Cymru y gellir eu dynodi'n ardaloedd sensitif (ewtroffig). Os yw'n cael ei ddynodi, a gwelir ei fod yn effeithio ar yr amgylchedd dŵr, bydd angen i waith trin carthion mawr gael fod â phrosesau trin maethynnau priodol ar waith.

Mae hefyd yn bwysig cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd i atal camddefnydd o'r system garthffosiaeth ac osgoi gwaredu cemegau niweidiol, brasterau, olewau, saim a deunyddiau amhriodol fel clytiau gwlyb. Mae llygredd o garthion a dŵr gwastraff yn achosi methiannau mewn 74 o gyrff dŵr

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth

Mae cyfuniad o gamgysylltiadau ein dŵr budr (o garthion a golchi) yn ein gweithleoedd (yn enwedig stadau diwydiannol) a chartrefi a thanciau carthion sy'n eiddo preifat a gweithfeydd trin ynghyd â dŵr glaw sy'n cael ei gasglu o arwynebau a wnaed gan ddyn megis toeau adeiladau, ffyrdd a phalmentydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at gymysgedd o lygredd dŵr yn ein trefi a'n dinasoedd. Gall hyn gynnwys llwch/graeon, olewau, glanedyddion, metelau, halen ffyrdd, bacteria o ysgarthion anifeiliaid a gronynnau eraill sy'n cael eu casglu drwy systemau draenio dŵr wyneb neu'n uniongyrchol i mewn i nentydd a llynnoedd lleol o ddraeniau lleol. Gall hyn gael effaith ar ein hafonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd yr arfordir. Mewn rhai achosion mae llygryddion o dir a halogwyd yn hanesyddol a llygredd atmosfferig yn cyfrannu at y broblem mewn dŵr wyneb a dŵr daear.

Mae mynd i'r afael â hyn yn gymhleth oherwydd natur a nifer y gollyngiadau bach sydd gyda'i gilydd yn cael effaith fawr yn lleol, er enghraifft canfod ffynhonnell llygredd o ystâd ddiwydiannol fawr a allai fod â llawer o wahanol fathau o fusnesau Mae hyn wedi'i gydnabod gan Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru

<<https://gweddill.gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/?lang=en>> i ddiogelu a gwella ein dyfroedd. Mae gennym gyfle hefyd i leihau effeithiau datblygiadau hanesyddol a datblygiadau yn y dyfodol drwy ddylunio a chynllunio ardaloedd trefol yn well. Ledled Cymru, mae bellach yn ofynnol i berchnogion gofrestru eu tanciau carthion/system trin carthion gyda CNC. Ers ffurfio CNC, bu dros 1500 o gofrestriadau newydd ledled Cymru. Mae CNC hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar gynnal tanciau carthion/systemau carthffosiaeth preifat sydd i'w weld [yma](#). Mae llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth yn achosi methiannau mewn 101 o gyrff dŵr.

Llygredd o ardaloedd gwledig

Gall rhai arferion rheoli tir yn ogystal ag effeithiau o ddefnyddiau gwledig eraill (er enghraifft ceffylau/stablau a chysiau golff) achosi i faethynnau (megis ffosforws a nitrad), bacteria, plaleiddiaid, priddoedd a gwaddodion effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Gall maethynnau achosi twf algâu gormodol ac arwain at ewtroffigedd yn ein dŵr wyneb. Gall dŵr daear a ddefnyddir ar gyfer dŵr yfed gael ei effeithio hefyd gan y defnydd hirdymor o wrtaith a thail sy'n gallu arwain at grynodiadau nitrad uwchlaw'r safon dŵr yfed. Gall dŵr daear sy'n cynnwys lefelau uchel o faethynnau arwain at statws ecolegol gwael mewn gwlyptiroedd sy'n cael eu bwydo gan ddŵr daear.

Mae llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig yn achosi methiannau mewn oddeutu 129 o gyrff dŵr. O'r rhain, mae 113 o fethiannau yn deillio o ffermio ac mae 16 yn deillio o goedwigaeth. Bydd atal a lleihau llygredd o ardaloedd gwledig yn fanteisiol i'r amgylchedd dŵr, i bobl ac i fywyd gwylt. O safbwynt economaidd, gall rheolwyr tir arbed arian drwy arferion rheoli tir da, gan atal pridd a maethynnau rhag cael eu colli, gall y diwydiant dŵr wneud arbedion sylweddol os bydd llai o angen rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn trin yfed dŵr ar gyfer lliw, plaladdwyr a halogiad gan nitradau. Gallai dulliau fel Rheolau Rhwymo Cyffredinol helpu i fynd i'r afael â materion llygredd amaethyddol gwasgaredig. Yn lleol, byddai pobl yn elwa drwy well ansawdd dŵr yn ein hafonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol, yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer ymdrochi neu gynaeafu pysgod cregyn. Byddai manteision hefyd i'n cynefinoedd a nifer fawr o Ardaloedd Gwarchoddedig gan gynnwys Dŵr Ymdrochi, Dyfroedd Pysgod Cregyn, Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed, safleoedd Natura 2000 a mannau sy'n

sensitif i faethynnau a ddynodir yn Barthau Perygl Nitradau. Yn ogystal, gallai mesurau sy'n hyrwyddo plannu coed, creu coetiroedd newydd a rheoli coetiroedd yn well yn unol â Safon Coedwigaeth y DU a chyhoeddiadau cysylltiedig, hefyd helpu i leihau llygredd o ardaloedd gwledig.

Ym mis Ionawr 2017, sefydlwyd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol er mwyn canolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Mae aelodau'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Dŵr Cymru, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, Hybu Cig Cymru, AHDB Dairy, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, Llywodraeth Cymru a Chyswllt Amgylchedd Cymru. Ym mis Ebrill 2018 cyd-gynhyrchodd yr Is-grŵp adroddiad interim ar lygredd amaethyddol i'r Gweinidog Lesley Griffiths. Roedd yr adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer meysydd gwaith pellach sydd eu hangen er mwyn sicrhau newid. Y rhain yw trefn reoliadol gadarn, datblygu dull gwirfoddol o dan arweiniad ffermwyr o reoli maethynnau, cyngor ac arweiniad gwell, gwella'r ystod o gyfleoedd buddsoddi a chanfod a hyrwyddo arloesedd. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan [YMA](#)

Llygredd o fwyngloddiau

Gall dŵr daear halogedig gael ei ollwng o fwyngloddiau segur ac mae'n broblem fawr yng Nghymru. Mae'r gollyngiadau dŵr hyn o'r mwyngloddiau yn aml wedi'u halogi â metelau toddedig fel haearn, plwm, copr, sinc a chadmiwm sy'n gollwng i afonydd cyfagos ac wedyn i aberoedd a dyfroedd arfordirol. Gall dŵr glaw ffo o domenni rwbel sy'n gysylltiedig â'r gweithfeydd ollwng i afonydd hefyd. Mae'r gollyngiadau llawn metel hyn yn cael effaith niweidiol sylweddol ar lawer o'n hafonydd a'r pysgod a'r ecosystemau y maent yn eu cynnal.

Mae mwyngloddiau metel segur yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r math hwn o lygredd er bod gollyngiadau o hen byllau glo yn achosi llygredd afonydd sylweddol ond mwy lleol hefyd. Mae llawer o gyrff dŵr daear a dŵr wyneb yn methu â chyflawni statws da o ganlyniad i ollyngiadau o byllau a adawyd a gellir effeithio ar rai dyfroedd aberoedd ac arfordirol mewn dalgylchoedd sydd â phroblem sylweddol o ran etifeddiaeth.

Bydd delio â llygredd o ddyfroedd mwyngloddiau yn gwella ansawdd dŵr yn sylweddol ac yn helpu bywyd gwyllt, gan gynnwys pysgod, pryfed a bywyd dyfrol arall. Bydd hefyd yn diogelu cyflenwadau dŵr yfed gwerthfawr. Ceir manteision ehangach o adfer dŵr mwyngloddiau, er enghraifft mae defnyddio gwelyau cyrs gwlyptir yn gwella bioamrywiaeth yn sylweddol ac yn darparu cynefin cyfoethog i adar. Mae'r rhain yn aml yn ddeniadol yn weledol a gellir eu defnyddio fel amwynderau cyhoeddus. Mae safleoedd mwyngloddiau segur yn rhan o dreftadaeth ddiwydiannol Cymru gyda llawer yn cael eu dynodi'n Henebion Cofrestredig neu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Glo yn gweithredu 74 o gynlluniau dŵr mwyngloddiau mewn pyllau glo segur gan ddefnyddio cyllid gan yr Adran Ynni, Busnes a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae 15 o'r rhain yng Nghymru. Rhaid i'r cynlluniau hyn barhau i weithredu i rwystro afonydd a dŵr daear rhag dirywio. Ers 1994, mae'r Awdurdod Glo wedi glanhau a diogelu dros 371 km o afonydd, ac wedi diogelu 5 cyflenwad dŵr yfed o ddŵr daear, a phob blwyddyn mae'n atal dros 3500 tonn o solidau haearn a halogion eraill sy'n achosi llygredd. Mae'r cynlluniau dŵr mwyngloddiau

yn darparu 35 hectar (8 hectar yng Nghymru) o welyau cyrs hefyd. Mae'r Awdurdod Glo hefyd yn gweithredu 3 chynllun trin mwyngloddiau metel yn Lloegr gan ddefnyddio arian gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Yng Nghymru mae 60 o gyrff dŵr sy'n methu â chyflawni statws da oherwydd mwyngloddiau segur.

Newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr

Gall hyn effeithio ar afonydd, aberoedd a dŵr daear, naill ai drwy amrywiad hinsoddol tymhorol neu dynnu dŵr ac mae'n pennu faint o ddŵr sydd ar gael i bobl a bywyd gwyllt. Mae gostyngiad yn y llif a'r cyfaint yn gallu effeithio ar y ffordd rydym yn defnyddio dŵr yn ein bywydau bob dydd, ar gyfer dŵr yfed a defnyddiau penodol fel amaethyddiaeth, busnes a diwydiant. Mae newidiadau yn nhwff y boblogaeth yn creu mwy o bwysau ar y galw am ddŵr. Bydd gwella'r ffordd y caiff adnoddau dŵr eu rheoli yn gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr o ansawdd da ar gael ar gyfer amgylchedd dŵr iachach a sicrhau cyflenwadau dŵr ar gyfer pobl, busnesau ac amaethyddiaeth. Bydd hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd hamdden ac yn cynyddu gwerth amwynder amgylcheddau naturiol, gan arwain at fanteision iechyd i bobl. Yng Nghymru mae 35 o gyrff dŵr sy'n methu â chyflawni statws da oherwydd newidiadau i lif a lefelau dŵr.

3.3 Materion ychwanegol sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr

Mae presenoldeb **planhigion ac anifeiliaid estron goresgynol** yn ein cyrsiau dŵr yn gallu cael effeithiau economaidd sylweddol. Unwaith y byddant wedi ennill eu plwyf, mae eu rheoli yn aml yn rhy ddrud neu'n anymarferol yn dechnegol ac yn aflwyddiannus yn y pen draw. Gall newid yn yr hinsawdd effeithio ar ddsbarthiad y rhywogaethau hyn gan arwain at gynyddu pa mor gyffredin ydynt a'u hamrywiaeth yn y dyfodol.

Cynyddu mae cost rheoli rhywogaethau goresgynol i wneud yn siŵr nad oes perygl i amddiffynfeydd rhag llifogydd, mordwyo a'r amgylchedd naturiol. Mae rhai planhigion fel dail-ceiniog arnofiol a briallu'r dŵr yn cynyddu'r perygl o lifogydd. Gall eraill fel cimwch yr afon leihau sefydlogrwydd glannau afonydd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael effeithiau negyddol ar ecoleg a gweithgareddau hamdden fel pysgota a chwaraeon dŵr. Mae yna gostau sylweddol hefyd o ran rheoli a chael gwared yn ddiogel ar rywogaethau goresgynol megis clymog Japan ar safleoedd datblygu a rheoli rhywogaethau fel cregyn gleision rhesog, sy'n gallu blocio pibellau, manau porthi a strwythurau eraill.

Y mesur mwyaf effeithiol a rhataf yw lleihau'r nifer o rywogaethau newydd a gyflwynir ac arafu lledaeniad y rhai sy'n bresennol yn barod drwy ddefnyddio bioddigolwch da (mesurau sy'n lleihau'r risg o ledaenu clefydau a phlanhigion ac anifeiliaid estron goresgynol) a hyrwyddo'r ymgyrchoedd '[Gwirio, Glanhau, Sychu](#)' a '[Mynd at Wraidd y Mater](#)'.

Gall Ardaloedd Gwarchodedig Natura 2000 fod yn agored i niwed gan rai rhywogaethau estron goresgynol. Efallai y bydd angen mesurau rheoli dwys sy'n aml yn ddrud i'w rheoli'n briodol neu eu dileu o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, mewn safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu budd o ran cynefin, gall Jac y Neidiwr reoli a lleihau'r lle sydd ar gael ar gyfer rhywogaethau planhigion brodorol. Gall rheoli Jac y Neidiwr trwy ei dynnu â llaw neu ei dorri mewn ffordd wedi ei thargedu ac yn ddwys dros nifer o flynyddoedd leihau'r pwysau a achosir gan y rhywogaeth hon ac atal y cynefin rhag dirywio ymhellach. O fewn safleoedd morol Natura 2000, mae gan yr ewin mochyn y potensial i fygu nodweddion cynefinoedd gwarchodedig gan leihau eu bioamrywiaeth ac effeithio ar eu

cyflwr. Bydd bioddiogelwch gofalus yn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd, ond gellir defnyddio mesurau rheoli fel carthu a mygu i gael gwared â'r rhywogaeth hefyd os deuir o hyd iddi.

Mae **asideiddio** yn parhau i effeithio ar afonydd ac ecosystemau llynnoedd oherwydd dyddodiad atmosfferig sylffwr a chyfansoddion nitrogen ar briddoedd ucheldir sensitif ac mae'n effeithio ar 42 o gyrff dŵr ledled Cymru. Mae coedwigo gyda chonwydd ar yr ucheldir a newidiadau i ddraenio yn cynyddu'r risg o asideiddio a'i effeithiau hefyd. Roedd gorsafoedd pŵer yn llosgi glo yn hanesyddol yn ffynhonnell llygredd atmosfferig. Mae rheolaethau rhyngwladol a newid i danwyddau glanach wedi arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau. Mae allyriadau gwasgaredig o ffynonellau trafndiaeth, domestig ac amaethyddol yn dal i gael effaith leol. Ceir tystiolaeth ar nifer fach o safleoedd eu bod wedi adfer ar ôl asideiddio, gyda chymorth calchu gwelyau a dalgylchoedd afonydd mewn rhai achosion. Mae'n debygol y bydd adferiad ecolegol ehangach yn broses hirdymor.

Gall **cemegau** effeithio ar yr ecosystem dyfrol yn y ffyrdd canlynol:

- Bywyd dyfrol (pysgod, planhigion ac infertebrata) o gysylltiad â chemegau yn nyfroedd y DU;
- Iechyd pobl ac ysglyfaethwyr bywyd gwyllt sy'n uwch yn y gadwyn fwyd o gemegau a allai gronni drwy'r gadwyn fwyd dŵr; a
- Ffynonellau dŵr wyneb a dŵr daear lle y gallai halogiad cemegol effeithio ar eu defnydd parhaus i gyflenwi dŵr at ddibenion domestig neu gynhyrchu bwyd.

Mae CNC yn rheoli cemegau yn yr amgylchedd dŵr o fewn fframwaith dull strategol o fynd i'r afael â pheryglon sy'n deillio o gemegau niweidiol yn nyfroedd y DU. Mae cemegau yn yr amgylchedd yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau. Mae rhai cemegion yn hollbresennol a chânt eu rheoli orau ar raddfa genedlaethol tra bod eraill yn benodol i weithgaredd a dylid canolbwyntio'r gwaith o'u rheoli ar raddfa leol. Gwaherddir llawer o gemegau rhag cael eu cynhyrchu a/neu eu defnyddio ond maent yn para yn yr amgylchedd am gyfnodau hir ac maent yn parhau i gael eu monitro i ddangos bod y rheolaethau presennol yn ddigonol a bod y crynodiadau yn lleihau. Bydd rheoli cemegau yn sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith ar fywyd dyfrol a defnydd dynol o ddŵr a'r fflora a'r ffawna sy'n byw ynddo.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn nodi is-grŵp o gemegau sy'n hollbresennol, yn barhaus, yn fiogronnol ac yn wenwynig (uPBT) sy'n gofyn am ystyriaeth arbennig wrth fonitro a chyflwyno canlyniadau dosbarthu. Bydd rhai o'r uPBTs hyn yn cael eu hadrodd am y tro cyntaf yn 2021 ac rydym yn rhagweld y bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei rhoi yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon i roi cyd-destun pellach i'r defnyddiau presennol, y risgiau a'r effeithiau y gallai'r uPBTs eu cael ar yr amgylchedd dyfrol.

Mae **plastig a sbwriel** wedi cael eu cydnabod fel problem gyffredin yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac maent yn cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt, cynefinoedd bywyd gwyllt a phobl. Mae plastig yn diraddio'n araf iawn yn yr amgylchedd ac, fel y cyfryw, gall organebau byw yn enwedig anifeiliaid y môr gael niwed naill ai gan effeithiau mecanyddol, megis mynd yn sownd mewn gwrthrychau plastig neu broblemau'n ymwneud

â llyncu gwastraff plastig, neu drwy ddod i gysylltiad â chemegau yn y plastig sy'n ymyrryd â'u ffisioleg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd safonol o fonitro neu adrodd am y broblem hon, ond mae mwy a mwy o bryder ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r mater hwn ac mae camau'n cael eu cymryd i frwydro yn erbyn y cynnydd mewn llygredd plastig. Mae'r DU ynghyd â gwledydd eraill y Gymanwlad wedi addo dileu plastig defnydd untro a gwastraff plastig arall y gellir ei osgoi o dan '[Cynghrair cefnforoedd glân y Gymanwlad](#)'. Nod y cytundeb hwn yw galw ar bob gwlad i addo gweithredu ar blastig a chymryd camau i atal plastig rhag mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr yn y lle cyntaf.

Mae llawer o faterion eraill sy'n gallu effeithio ar yr amgylchedd dŵr, ond gall y rhain fod yn fwy lleol. I gael rhagor o wybodaeth am y rhain, trowch at ein [Hadroddiad SoNaRR](#).


3.4 Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r amgylchedd dŵr yn arbennig o agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Roedd y tywydd a brofwyd gennym yn 2012 yn tynnu sylw at yr heriau a wynebwn wrth geisio gwella ecosystemau dŵr mewn hinsawdd amrywiol. Mae angen i ni baratoi ar gyfer mwy o amrywioldeb wrth i'r hinsawdd barhau i newid. Mae'n rhaid i ni ystyried newid yn yr hinsawdd nawr er mwyn lleihau'r risg o benderfyniadau buddsoddi gwael a allai gyfyngu ar y graddau y bodlonir amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr ac effeithlonrwydd y gwaith o'u cyflawni. Mae angen i'r ymdrech i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd gael ei hymgorffori mewn cynlluniau dalgylchoedd er mwyn darparu ar gyfer mwy o amrywioldeb yn yr hinsawdd a chynnydd tymor hwy mewn tymheredd.

Mae tystiolaeth bod y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu tymheredd dŵr afonydd, a bod dwyster y glawiad a llif brig afonydd ar gynydd. Wrth i newid yn yr hinsawdd barhau, bydd pwysau cynyddol ar ein gwaith i sicrhau statws ecolegol da. Mae'r rhain yn cynnwys yr effaith ar bysgodfeydd yn sgil tymheredd uwch, risg gynyddol o lygredd gwasgaredig o dan lawiad trwm a heriau o ran cynnal llifoedd o dan amodau sychder.

Yn ein hystyriaethau o'r materion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer Basnau Afon Gorllewin Cymru a Dyfrdwy, rydym wedi ystyried tystiolaeth o allbynnau'r [Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd \(CCRA, 2017\)](#) ac [Amcanestyniadau newid hinsawdd gan ddefnyddio allyriadau canolog hyd at 2050 o'r UKCP18](#)

Mae Ffigur 2 isod yn dangos yr amcangyfrif canolog o'r newid a ragwelir yn nymheredd yr haf ar gyfer Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy rhwng 2040 a 2059.



Tabl 1 Ardal Basn Afon Dyfrdwy

	10 ^{fed} Canradd	50 ^{fed} Canradd	90 ^{fed} Canradd
Glwiad yr haf %	-30	-14	2
Glwiad y gaeaf %	-6	3	11
Tym yr haf °C	0.3	1.4	2.5
Tym y gaeaf °C	0.2	1.1	2.1

Yn seiliedig ar senario allyriadau RCP 6.0

Tabl 2 Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

	10 ^{fed} Canradd	50 ^{fed} Canradd	90 ^{fed} Canradd
Glwiad yr haf %	-32	-14	2
Glwiad y gaeaf %	-7	6	19
Tym yr haf °C	0.3	1.4	2.5
Tym y gaeaf °C	0.1	1	2

Yn seiliedig ar senario allyriadau RCP 6.0

Rhagwelir y bydd tymheredd cymedrig yn cynyddu o 1-1.4°C. Gallai glawiad yn y gaeaf godi rhwng 3-6% a gostwng 14% yn yr haf.


4.0 Heriau a Dewisiadau: Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru

4.1 Trosolwg

Mae Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru (Ffigur 3) yn cwmpasu arwynebedd o 16,653 cilomedr sgwâr. Mae'n ymestyn ar draws hanner gorllewinol Cymru yn ei gyfanrwydd, o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd. Mae'r prif ganolfannau poblogaeth wedi'u cyfyngu i'r llain arfordirol a'r rhan fwyaf gorllewinol o gymoedd y De. Y prif ganolfannau trefol yw Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd yn y de, Aberystwyth yn y canolbarth ar yr arfordir a Bangor yn y gogledd. Mae'r ardal basn afon yn wledig gan mwyaf, gyda thir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth yn bennaf. Mae Bae Abertawe ac Aberdaugleddau yn ganolfannau diwydiant trwm gyda gwaith dur Port Talbot a phurfeydd olew a therfynellau nwy sy'n darparu tanwydd i'r genedl. O ran ffiniau Datganiad Ardal yng Nghymru mae'r ardal basn afon yn cwmpasu rhan o ardaloedd Gogledd-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru, Canol De Cymru a'r Môr. Mae data am faterion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer eich ardal leol i'w weld yn y proffiliau datganiad ardal sydd i'w gweld [yma](#). Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am ddalylchoedd ardaloedd basn afon yn yr ymgynghoriad blaenorol o 2013.

Am wybodaeth am yr ystadegau allweddol diweddaraf ar gyfer ardal basn afon Gorllewin Cymru, gan gynnwys yr Ardaloedd Gwarchoddedig, gweler Atodiad A. Gellir dod o hyd i fapiau o'r holl Ardaloedd Gwarchoddedig ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#)

Ffigur 3. Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru



4.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol

Mae Ffigurau A2 a A5 yn Atodiad A yn dangos y canlyniadau ar gyfer y materion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, yn cynnwys fesul sector. Y canlynol yw'r prif gategoriâu o faterion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer yr ardal basn afon. Rhoddir crynodeb o'r mesurau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r materion hyn yn Atodiad B.

- Mae **addasiadau ffisegol** yn achosi methiannau mewn 101 o gyrff dŵr oherwydd pwysau fel rhwystrau i fudo pysgod megis coredau (25 corff dŵr), ond hefyd amddiffyn rhag llifogydd (3) a chronni dŵr (12).
- Mae **llygredd o garhion a dŵr gwastraff** yn achosi methiannau mewn 41 o gyrff dŵr
- Mae **llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth** yn achosi methiannau mewn 58 o gyrff dŵr.
- Mae **llygredd o ardaloedd gwledig** yn achosi methiannau mewn tua 71 o gyrff dŵr. O'r rhain, mae 56 o fethiannau yn deillio o ffermio ac mae 15 yn deillio o goedwigaeth.
- Mae **llygredd o fwyngloddiau** yn achosi methiannau mewn 42 o gyrff dŵr


5. Heriau a Dewisiadau: Ardal Basn Afon Dyfrdwy

5.1 Trosolwg

Mae Ardal Basn Afon Dyfrdwy (Ffigur 4) yn cwmpasu arwynebedd o 2,251 cilometr sgwâr, yn bennaf yng Nghymru ond yn cynnwys ardal fach yn Lloegr. Mae'n tarddu ym mynyddoedd a llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'n llifo i gynefin rhynglanwol ac adar hirgoes Aber Afon Dyfrdwy sydd o bwys rhyngwladol. Caer a Wrecsam yw'r prif ganolfannau trefol, ond mae'r tir yn wledig yn bennaf gyda thir pori garw a choedwigaeth yn y dalgylch uchaf a ffermio â'r laeth ar wastatir Swydd Gaer. O ran ffiniau Datganiadau Ardal yng Nghymru mae Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn cwmpasu rhan o Ardaloedd Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru, a'r Môr. Mae data am faterion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer eich ardal leol i'w weld yn y proffiliau datganiad ardal sydd i'w gweld [yma](#). Ceir rhagor o wybodaeth fanwl am y dalgylch yn yr ymgynghoriad blaenorol o 2013.

Am wybodaeth am yr ystadegau allweddol diweddaraf ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy, gan gynnwys yr Ardaloedd Gwarchoddedig, gweler Atodiad A. Gellir dod o hyd i fapiau o'r holl Ardaloedd Gwarchoddedig ar [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).

Ffigur 4. Ardal Basn Afon Dyfrdwy



5.2 Y Materion Rheoli Dŵr Sylweddol

Mae Ffigurau A3 a A6 yn Atodiad A yn dangos y canlyniadau ar gyfer y materion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, yn cynnwys fesul sector. Y canlynol yw'r prif gategoriâu o faterion rheoli dŵr sylweddol ar gyfer yr ardal basn afon. Rhoddir crynodeb o'r mesurau sydd ar gael i fynd i'r afael â'r materion hyn yn Atodiad B.

- Mae **addasiadau ffisegol** yn achosi methiannau mewn 34 o gyrff dŵr oherwydd pwysau fel rhwystrau i fudo pysgod megis coredau (7 corff dŵr), ond hefyd amddiffyn rhag llifogydd (5) a chronni dŵr (4).
- Mae **llygredd o garthion a dŵr gwastraff** yn achosi methiannau mewn 13 o gyrff dŵr
- Mae **llygredd o ardaloedd gwledig** yn achosi methiannau mewn 20 o gyrff dŵr oherwydd ffermio.
- Mae **llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth** yn achosi methiannau mewn 17 o gyrff dŵr.
- Mae **newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr** yn achosi methiannau mewn 9 corff dŵr

- 2) A yw'r opsiynau ar gyfer datrys y materion rheoli dŵr sylweddol (gweler Atodiad B) yn rhesymol ac yn gyflawnadwy? Nodwch pa fater ac ardal basn afon rydych yn ymateb iddynt.
- 3) A oes gennych awgrymiadau eraill ar sut i fynd i'r afael â'r materion pwysig a nodir yn y cynlluniau rheoli basn afon?
- 4) Pa gyfleoedd sydd ar gael i roi sylw i'r materion rheoli dŵr sylweddol ym mhob ardal basn afon drwy'r broses Datganiadau Ardal? Os yw'n bosibl, nodwch y dalgylchoedd sy'n cynnig cyfleoedd penodol yn eich tyb chi.
- 5) Nid ydym yn bwriadu cynhyrchu dogfen ymatebion i'r ymgynghoriad

6.0 Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi trosolwg o'r hyn a gredwn yw'r materion sylweddol yng Nghymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy. I gael rhagor o wybodaeth i ategu'r ymgynghoriad hwn, gweler [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#) ac ar gyfer Lloegr gweler [Catchment Data Explorer](#).

Asesiad Amgylcheddol Strategol

Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) Statudol ar y cylch cyntaf a'r ail gylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae'n rhaid i CNC, fel awdurdod cyfrifol, wneud penderfyniad sgrinio o dan y Rheoliadau AAS ar gyfer y trydydd cylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon (Dyfrdwy a Gorllewin Cymru). Ein barn ar hyn o bryd yw y *gallai* Cynllun Rheoli Basn Afon 3 gael ei ystyried yn fân addasiad, fodd bynnag, mae rhywfaint o ansicrwydd yn y cyfnod cynnar hwn a yw'r cynllun neu'r addasiadau yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol. Wrth wneud ein penderfyniad rhaid i ni ystyried y canlynol:

- Byddwn yn adolygu'r AAS a gynhaliwyd ar gyfer Cynllun Rheoli Basn Afon yr 2^{il} gylch, mewn perthynas â'r hyn a gyflawnwyd, i benderfynu a oes unrhyw effeithiau arwyddocaol a ragwelwyd neu annisgwyl wedi codi. Gan edrych yn benodol ar yr effeithiau sylweddol sydd wedi neu sydd heb godi o bosibl, er enghraifft, rhagwelwyd effeithiau andwyol sylweddol ar dreftadaeth ddiwylliannol o ganlyniad i fesurau i adfer

mwyngloddiau metel a thynnu coredau. Rhaid i ni benderfynu, ar sail ein profiad yn y cylch 1^{af} a'r 2^{il} gylch a yw asesu amgylcheddol ar lefel prosiect yn mynd yn ddigon pell i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol.

- Mae'r Materion Rheoli Dŵr Sylweddol yn parhau'r un fath â'r 2il gylch.
- Lle caiff mesurau newydd eu cyflwyno yn y 3ydd cylch, byddwn yn monitro datblygiad y Cynllun Rheoli Basn Afon ac yn eu sgrinio am effeithiau amgylcheddol sylweddol o dan Atodlen 1 y Rheoliadau AAS.

Byddwn yn gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth ddatblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon, sy'n alinio'n agos â dull yr AAS. Byddwn yn sgrinio'r cynllun ac unrhyw addasiadau wrth iddynt gael eu datblygu, am effeithiau amgylcheddol sylweddol o dan Atodlen 1 o'r Rheoliadau AAS. Os bydd y sgrinio hwn yn rhagweld effeithiau sylweddol, byddwn yn dychwelyd at gynnal AAS statudol. Os byddwn yn cynnig peidio â chynnal AAS statudol, am y rheswm bod y cynlluniau yn fân addasiad o gynlluniau'r 2^{il} gylch ac yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau sylweddol, byddwn yn ymgynghori ag ymgynghoreion statudol ar ein penderfyniad ac yn ei gyhoeddi ynghyd â'n cyfiawnhad.

Cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Proffiliau Ardal

Ewch i [dudalen we Datganiadau Ardal CNC](#) i weld y 'Proffiliau Ardal', sy'n darparu dadansoddiad o ddata'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fesul ffin datganiad ardal. Mae'r proffiliau hyn yn cael eu defnyddio fel crynodeb cyfunol lefel uchel o gyflwr adnoddau naturiol a data economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob datganiad ardal. Mae pob un yn cynnwys crynodeb lefel uchel o ddata'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gyda hyperddolenni i gael mynediad at fwy o fanylion. Noder nad 'adroddiadau' yw proffiliau ardal, ond eu bod wedi'u cynllunio i gynorthwyo trafodaeth ar y cyfleoedd lleol i fynd i'r afael â rheoli adnoddau naturiol. Mae'r data ynddynt yn dod o ffynonellau cyhoeddedig eraill, a bydd pob proffil yn destun newid parhaus a rheolaidd. Am y rheswm hwn rydym yn annog rhanddeiliaid i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o dudalen we datganiadau ardal CNC.

7.0 Trefniadau ymgynghori

Sut i ymateb

Mae angen ymatebion erbyn 22 Rhagfyr 2019, defnyddiwch y profforma cwestiynau ar ein gwefan. Dylid anfon y ffurflen at; WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu drwy'r post at:

Jill Brown
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Os byddai'n well gennych gael fersiwn wedi'i hargraffu o'r ddogfen, ffoniwch 0300 065 3000.

Sut bydd yr ymatebion yn cael eu defnyddio

Byddwn yn defnyddio ymatebion yr ymgynghoriad hwn i lywio'r ffordd rydym yn ymdrin â'r materion pan fyddwn yn diweddarau'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon ac wrth ddatblygu'r Datganiadau Ardal. Bydd staff CNC sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn yn gweld unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn llawn. Efallai y bydd staff eraill CNC yn ei weld hefyd i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol a gellir ei rannu â staff o Lywodraeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a DEFRA.

Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd CNC yn gwneud pob sylw (ac eithrio gwybodaeth bersonol) ar gael ar gais. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a dderbyniwyd, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn darparu enwau unigolion sy'n ymateb; byddwn yn cynnwys enw'r sefydliad ar gyfer yr ymatebion hynny a wneir ar ran sefydliadau.


Os byddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad gyda chyfeiriad e-bost, byddwn yn cydnabod eich ymateb. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ymgynghoriadau sydd ar ddod, oni bai eich bod yn dweud wrthym nad ydych am dderbyn y wybodaeth hon.

Bydd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys CNC. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei hystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn i ni wneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.


Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Atodiad A: Ffeithiau ac Ystadegau ar gyfer Cymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy


Ffigur A1: Materion Rheoli Dŵr Sylweddol ar gyfer Cymru



Ffigur A2: Materion Rheoli Dŵr Sylweddol ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru




Ffigur A3: Materion Rheoli Dŵr Sylweddol ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy




NODYN: Mae'r data uchod yn cynnwys methiannau oherwydd 'amgylchiadau/nodweddion naturiol' er enghraifft, rhwystr naturiol i symudiad pysgod megis rhaeadrau (mewn rhai achosion efallai y bydd angen i ni osod amcan amgen ar gyfer y cyrff dŵr hyn gan ei bod yn annhebygol y byddant yn cyflawni statws da). Hefyd mae methiannau oherwydd 'data amheus' rydym yn gweithio i'w ddatrys, ac 'arall' sy'n gallu cynnwys pethau fel amser sydd ei angen i'r ecoleg ymadfer. Mae rhai 'ffactorau anhysbys' hefyd lle nad ydym yn gallu nodi'r rheswm am fethiant neu fod yr ymchwiliad yn anghyflawn adeg ysgrifennu'r adroddiad (nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y graffiau)


Ffigur A4: Nifer y cyrff dŵr sy'n methu yn ôl sector (Cymru)



Ffigur A5: Nifer y cyrff dŵr sy'n methu yn ôl sector (Gorllewin Cymru)



Ffigur A6: Nifer y cyrff dŵr sy'n methu yn ôl sector (Dyfrdwy)



Noder – Gall pob corff dŵr fethu oherwydd mwy nag un mater a mae'r holl graffiau uchod yn cynnwys y materion rheoli dŵr sylweddol 'tebygol' a 'cadarnhawyd'. I gael dadansoddiad o'r wybodaeth hon, gweler y set ddata RNAG ar Arsyli Dyfroedd Cymru.

Tabl A1: Cymhariaeth o gyrff dŵr yng Nghymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy sydd â statws ecolegol da/uchel yn 2015 a 2018

Categori	Cyfanswm nifer y gyrff dŵr	Nifer y gyrff dŵr sy'n 'dda neu well' 2015	Canran 2015	Nifer y gyrff dŵr sy'n 'dda neu well' 2018	Canran 2018
Cymru					
Afonydd	717	301	42	333	46
Llynnoedd	124	18	15	25	20
Camlesi *	8	4	50	4	50
Aberol	32	10	31	7	22
Arfordirol	23	11	48	12	52
Dŵr daear	38	21	55	Amh	Amh
Gorllewin Cymru					
Afonydd	426	195	46	215	50
Llynnoedd	64	13	20	15	23
Camlesi *	2	1	50	1	50
Aberol	28	9	32	7	25
Arfordirol	23	10	43	12	52
Dŵr daear	25	12	48	Amh	Amh
Dyfrdwy					
Afonydd	71	25	35	37	52
Llynnoedd	21	1	5	8	38
Camlesi *	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
Aberol	1	0	0	0	0
Arfordirol	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
Dŵr daear	4	3	75	Amh	Amh


* Yn cynnwys trosglwyddiadau dŵr wyneb

Noder: Nid yw dŵr daear wedi'i asesu yn nosbarthiad 2018, ond bydd yn cael ei asesu yn nosbarthiad 2021.


Yng Nghymru mae 43% o gyrff dŵr croyw a 35% o gyrff dŵr morol â statws ecolegol da neu well.

I gael statws yr ardal ddyfrol ar y cyfan gweler [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#).


Ffigur A7: Statws ecolegol i gyrff dŵr wyneb (Cymru) yn 2015 a 2018 (am GW gweler Cynllun Rheoli Basn Afon 2015 gan na fu unrhyw newid).



Ffigur A8: Statws ecolegol i gyrff dŵr wyneb (Gorllewin Cymru) yn 2015 a 2018



Ffigur A9: Statws ecolegol i gyrrff dŵr wyneb (Dyfrdwy) yn 2015 a 2018



Tabl A2: Ardaloedd gwarchodedig yng Nghymru, Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru ac Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Ardal warchodedig	Nifer
Cymru	
Dyfroedd yfed	169
Dyfroedd ymdrochi	105
Pysgod cregyn	23
Ardaloedd sensitif UWWTD	5
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	88
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	23
Parthau Perygl Nitradau (NVZ)	23
Gorllewin Cymru	
Dyfroedd yfed	90
Dyfroedd ymdrochi	105
Pysgod cregyn	21
Ardaloedd sensitif UWWTD	3
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	56
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	16
Parthau Perygl Nitradau (NVZ)	8
Dyfrdwy	
Dyfroedd yfed	23
Dyfroedd ymdrochi	1
Pysgod cregyn	2

Ardal warchoddedig	Nifer
Ardaloedd sensitif UWWTD	1
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	9
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) sy'n ddibynnol ar ddŵr*	3
Parthau Perygl Nitradau (NVZ)	12

* Gallai'r ffigur hwn fod ychydig yn wahanol i'r ymgynghoriad blaenorol gan ein bod wedi cael ymarfer sicrwydd ansawdd i sicrhau bod pob Ardal Gwarchodaeth yn cael ei mapio'n gywir i Ardal Basn Afon gan ddefnyddio cyfres gyson o reolau.

Atodiad B: Rhaglen o Fesurau a ddefnyddir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion rheoli dŵr sylweddol.

Addasiadau Ffisegol Cenedlaethol

- Parhau i weithredu'r canllawiau ynni dŵr gan gynnwys cynhyrchu canllaw dylunio a lleoli ar gyfer datblygwyr cynlluniau ynni dŵr
- Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr drwy raglenni gwaith presennol a dyluniadau cynlluniau ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd
- Adolygu canllawiau clirio'r dyfroedd ar gyfer gweithgareddau carthu a gwaredu mewn dyfroedd arfordirol ac aberoedd
- Cyflawni ein dyletswyddau statudol i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd eog, brithyll, dŵr croyw a llysywen.
- Rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith pysgodfeydd yng Nghymru fel y nodir yn Yr Agenda ar gyfer Newid Pysgodfeydd
- Cyflawni'r rhaglen pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru er mwyn sicrhau gwelliannau i gynefinoedd a mudo pysgod
- Mewn cyrff dŵr a ddynodir fel rhai wedi'u haddasu'n helaeth oherwydd amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, caiff mesurau lliniaru ar gyfer asedau a gweithgareddau sy'n eiddo i CNC eu hadolygu a'u cyflawni ar sail blaenoriaeth.
- Bydd CNC yn chwilio am gyfleoedd ac yn dylanwadu ar eraill i ddefnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol lle y bo'n briodol.
- Ledled Cymru, mae adolygiad o effeithiau gweithgareddau heb eu rheoleiddio sy'n targedu adnoddau pysgodfeydd môr ar y gweill. Dylai hyn ystyried hyd a lled gweithgareddau, effeithiau echdynnu a gweithgareddau cysylltiedig (e.e. mynediad) ar nodweddion Safle Morol Ewropeaidd (EMS), a pha mor adferadwy yw nodweddion EMS.
- Cyfrannu at waith ymchwil a datblygu er mwyn nodi'r arferion gorau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol yn yr amgylchedd dŵr.
- Defnyddio ein rôl reoleiddio i nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr
- Hyrwyddo adlinio rheoledig a chreu cynefinoedd rhynglanwol trwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd (NHCP).
- Cyfrannu at y gwaith o gyflawni Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr â blaenoriaeth.

Addasiadau Ffisegol Cyrff dŵr targed lleol

- Dileu neu liniaru rhwystrau i fudo pysgod: Galluogi mynediad pysgod (e.e. ysgol bysgod)
- Gwella cyflwr y sianel/gwely a/neu'r glannau/traethlin
- Newid gweithrediadau a chynnal a chadw
- Gwella cyflwr y parth torlannol a/neu gynefinoedd gwlyptir: Rheoli Cynefinoedd

Llygredd o garthion a dŵr gwastraff cenedlaethol

- Lleihau'r broses o waredu braster, olew a saim i garthffosydd – ymgyrch ymwybyddiaeth i ddylanwadu ar ymddygiad <http://www.stopcyncreubloc.com/>
- Gweithio'n strategol gyda gweinyddiaethau'r DU i rannu arfer gorau ar atal a datrys unrhyw gamgysylltiadau
- Cwmnïau dŵr yn datblygu ac yn darparu opsiynau rheoli dalgylchoedd sy'n gwella ansawdd dŵr ac yn darparu gwasanaethau ecosystem ychwanegol
- Datblygu a darparu dull mwy penodol o reoli carthffosiaeth a draenio
- Hyrwyddo'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy (SuDS) a darparu canllawiau ar gyfer integreiddio datblygiadau a chynlluniau dŵr
- Gweithredu methodoleg ddiwygiedig ar gyfer asesu llygryddion peryglus mewn gollyngiadau

Llygredd o garthion a dŵr gwastraff cenedlaethol
<p>dŵr wyneb</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae CNC wedi gweithio gyda chwmnïau dŵr i ddatblygu rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ollyngiadau carthion er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r amcanion ardal warchoddedig yn AMP6 (2015-20)
Llygredd o garthion a dŵr gwastraff cyrff dŵr targed lleol
<ul style="list-style-type: none"> Lleihau llwybrau ffynhonnell bwyntiau (h.y. mynediad rheoli i'r amgylchedd dŵr): Ail-ddylunio ac ailadeiladu'r system garthffosiaeth

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth cenedlaethol
<ul style="list-style-type: none"> Hyrwyddo Rheoliadau Rheoli Llygredd (storio olew) (Cymru) 2016 CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo ac ymgorffori'r defnydd o Ddylunio Trefol Sensitif i Ddŵr (WSUD) mewn polisi cynllunio a rheoliadau adeiladu datganoledig Cyrff Cymeradwyo SuDS i ddarparu cyngor cyson ar gyfer gweithgareddau cynllunio a chynnal cynlluniau Hyrwyddo'r gwaith o weithredu SuDS mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, mewn ardaloedd trefol a gwledig, er mwyn sicrhau manteision amgylcheddol, ansawdd dŵr, cymdeithasol a pherygl llifogydd drwy gyflawni ein rôl fel ymgynghorai statudol a thrwy weithio gydag ACLlau i ymgorffori seilwaith gwyrdd Mae CNC yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i helpu Cyrff Cymeradwyo SUDS i benderfynu ar geisiadau yn gyson. Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig CNC Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i gamgysylltiadau gan gynnwys targedu ardaloedd lle mae problemau'n gyffredin. Cynnwys gwaith allgymorth i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad y cyhoedd a'r gymuned Defnyddio system asedau eiddo Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth am Eiddo (ePIMS) Llywodraeth y DU i nodi ystadau diwydiannol a depos sy'n eiddo i'r cyhoedd o fewn cyrff dŵr sy'n methu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatrys problemau fel bod y safleoedd hyn yn ceisio cyflawni arfer gorau Asesu'r effeithiau amgylcheddol a lleihau halogiad o safleoedd diwydiannol a gwastraff hanesyddol Datblygu sail dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o reoli sbwriel morol a strategaeth sbwriel morol. Rhoi deddfwriaeth ar waith i gefnogi atebion draenio cynaliadwy. Gweithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd o fwy nag un annedd gynnwys nodweddion SuDS sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol. Byddwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchnogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal er mwyn osgoi bygythiad i iechyd y cyhoedd neu iechyd yr amgylchedd Rheoli'r broses o ryddhau cemegau, i'r amgylchedd dŵr, yn y tarddle h.y. cynhyrchu a defnyddio, drwy weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, gan gynnwys rheoliadau REACH, rheoliadau Llygryddion Organig Parhaol a'r Gyfarwyddeb Defnydd Cynaliadwy o Bladdwyr Gwella dealltwriaeth o darddiad ac atebion i lygredd gwasgaredig drwy gynnal ymchwiliadau lleol (e.e. Nentydd Clir) Defnyddio data digwyddiadau llygredd i dargeddu cyngor a gweithgareddau atal llygredd. Codi ymwybyddiaeth o fanteision a llwyddiannau rheoli dŵr ffo wyneb drwy SuDS (systemau draenio cynaliadwy) yn unol â safonau Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau llifogydd a llygredd.

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth cenedlaethol

- Rhoi'r Cod Ymarfer SuDS (systemau draenio cynaliadwy) ar waith. Cydymffurfio â'r cyngor a gyhoeddwyd ar gyfer gweithredwyr ar systemau draenio cynaliadwy
- Cyngori busnesau bach a chanolig ar atal llygredd
- Mae CNC wedi cyhoeddi canllawiau ar ['Rhedeg a chynnal tanc carthion neu uned trin carthion gryno'](#)
- Codi ymwybyddiaeth o osod a gweithredu systemau trin carthion preifat yn gywir

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth cyrff dŵr targed lleol

- Gweithredu ar lwybrau tarddle penodol ar Worthenbury Brook yn dilyn digwyddiad llygredd
- Lliniaru/adfer effeithiau tarddle penodol ar y derbynnydd: Gosod telemetreg
- Lleihau llygredd o darddle penodol yn y tarddle

Llygredd o ardaloedd gwledig cenedlaethol

- Mae CNC yn gweithio gyda chynlluniau gwarant ffermydd a phrynwyr allweddol i hyrwyddo arferion amaethyddol cynaliadwy ac i gyflawni amcanion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ac ardaloedd gwarchoddedig
- Mae CNC yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol (e.e. Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth, undebau ffermio) i ddatblygu a darparu cyngor a chanllawiau wedi'u targedu i reolwyr tir
- Mae CNC yn darparu rhaglen o fesurau wedi'u blaenoriaethu ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ac ardaloedd gwarchoddedig
- Mae CNC yn cynhyrchu cynlluniau rheoli dŵr ar gyfer pob gweithrediad ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ac ardaloedd gwarchoddedig
- Parhau i wella ymwybyddiaeth o Ganllawiau Safonol Coedwigaeth y DU (gan gynnwys canllawiau "Forests and Water"), a Chanllawiau Ymarfer (gan gynnwys "Managing forests in acid sensitive water catchments"), ar draws y sector coedwigaeth.
- Llywodraeth Cymru yn targedu cymhellion Rheoli Coetir Glastir er mwyn gwella'r amgylchedd dŵr
- Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â llygredd gwasgareddig gwledig
- Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy er mwyn cyflawni'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ac amcanion ardaloedd gwarchoddedig
- Cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o ddŵr gyda holl staff CNC sy'n gweithio ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru i gwmpasu rheoli dŵr ar safleoedd gweithredol.
- Defnyddio rhaglen arloesi Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) i ddatblygu atebion newydd i broblemau amgylcheddol.
- CNC i hyrwyddo mesurau perthnasol ar gyfer plannu coed, creu coetiroedd newydd a mesurau rheoli coetiroedd sy'n gyson â 'Woodland for Water: Woodland measures for meeting WFD objectives' 2011
- Adolygu'r broses o weithredu'r Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a'r Cyflwr Amgylcheddol Amaethyddol Da (GAEC) er mwyn cryfhau'r ffactorau sy'n sbarduno'r arferion amaethyddol gorau -sicrhau bod cydraddoldeb o ran monitro arferion sy'n achosi llygredd gwasgareddig a'u canlyniadau (o fewn dalgylchoedd safleoedd Natura 2000) gydag SMR.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng opsiynau amaeth-amgylcheddol a'r amcanion Natura 2000 ar ffermydd mewn dalgylchoedd sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar safleoedd Natura 2000
- Blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni mesurau lle gallai safleoedd Natura 2000 i lawr yr afon o goedwigoedd elwa ar welliannau (h.y. gwelliannau i lystyfiant glannau afon, adlinio draenau coedwig a datgysylltiad draenau wrth ymyl y ffordd o gyrtsiau dŵr) i fodloni safonau presennol

Llygredd o ardaloedd gwledig cenedlaethol

yr UKFS, er mwyn lleihau unrhyw risg o lygredd gwasgaredig ac asideiddio.

- Alinio dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth trwyddedu a chynllunio i gefnogi dull gweithredu cyfannol mewn perthynas â dyddodi nitrogen yng Nghymru, gan integreiddio effeithiau ar ansawdd aer a dŵr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i ddarparu dull rheoli adnoddau naturiol
- Annog gweithredu cymunedol ar raddfa dalgylch trwy ddatganiadau ardal wedi'u datblygu gan CNC a grwpiau cydweithredol eraill sy'n anelu at wella ansawdd dŵr yn eu hardal.
- Monitro, ymchwilio a datrys tarddle llygredd mewn Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed
- Adolygu a chryfhau effeithiolrwydd a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol (dadansoddi bylchau) sut maent yn cael eu gorfodi er mwyn gwella eu gallu i ymdrin â llygredd dŵr gwasgaredig
- Cynnal ymchwiliad peilot i nodi ffynonellau llygredd gwasgaredig mewn safle Natura 2000 morol ac argymhell camau gweithredu targed i fynd i'r afael â'r problemau gwasgaredig.
- Byddwn yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cyngori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda thirfeddianwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o lygredd gwasgaredig a sut gallant helpu i'w atal trwy reoli'r tir yn well.
- Mae'r Is-grŵp WLMF wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r rheoliadau amaethyddol newydd ar reoli maethynnau.
- Mae NFU Cymru, mewn partneriaeth â'r FUW a Dŵr Cymru, yn datblygu dull gwirfoddol o weithredu er mwyn sefydlu dull gweithredu dan arweiniad ffermwyr o sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr a lleihau gorfaethu. Cefnogir hyn gan CNC gydag elfen allweddol yn cynnwys datblygu Cynllun Gwarant Ffermydd ar Reoli Maethynnau.
- Bydd Cyswllt Ffermio yn darparu ail elfen o raglen o waith cyngori wedi'i thargedu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â llygredd amaethyddol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cyfarfodydd ar raddfa fawr, digwyddiadau a chlinigau llai ar y fferm, cyngor grŵp a chyngor un i un ar y fferm.
- Bydd yr is-grŵp WLMF yn parhau i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y mecanweithiau ar gyfer buddsoddi ar y fferm wedi'u cynllunio cystal â phosibl, gan alluogi ffermwyr i fuddsoddi mewn datblygu busnesau mwy cynaliadwy a'u cymell i wneud gwelliannau seilwaith
- Bydd yr is-grŵp WLMF yn parhau i chwilio am gyfleoedd i arloesi yn y sector ffermio.
- Bydd adroddiad yn disgrifio sut bydd yr argymhellion yn yr Adroddiad Interim ar Lygredd Amaethyddol yn cael eu rhoi ar waith yn cael ei gyhoeddi yn 2019.
- Mae CNC wedi cyflogi 8 aelod staff ychwanegol fel rhan o Brosiect Cyngor ar Ffermio Llaeth sydd â'r nod o ymweld â 350 o ffermydd godro. Rhoddir cyngor ar arferion gorau a chydymffurfiaeth reoleiddiol er mwyn lleihau achosion o lygredd amaethyddol a gwella statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn cyrff dŵr sy'n methu

Llygredd o ardaloedd gwledig cyrff dŵr targed lleol

- Mesurau llygredd gwasgaredig amaethyddol - Aldford Brook, Worthenbury a Wych Brook
- Lliniaru/adfer effeithiau llygredd gwasgaredig ar y derbynydd
- Lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle: rheoli seilwaith fferm, caeau a chnydau (maethynnau), tail a gwrtaith
- Lleihau llwybrau llygredd gwasgaredig (h.y. rheoli mynediad i'r amgylchedd dŵr) Dŵr ffo ar yr wyneb a rheoli draeniad

Llygredd o fwyngloddiau cenedlaethol

- Rhaglen i ddarparu triniaeth briodol ar nifer fach o fwyngloddiau budd uchel, a blaenoriaeth uchel a nodwyd o dan Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru
- Rhaglen ymchwil i edrych ar adfer tomenni rwbel (glo) gan ddefnyddio creu coetiroedd a

Llygredd o fwyngloddiau cenedlaethol

chynefinoedd

- Asesu'r effeithiau amgylcheddol a lleihau halogiad o safleoedd diwydiannol a gwastraff hanesyddol
- Rhaglen atal ac adfer dŵr pyllau glo yr Awdurdod Glo
- Ymchwilio i ollyngiadau o fwyngloddiau metel a mwyngloddiau eraill heblaw pyllau glo sy'n segur yn unol â Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru. Blaenoriaethau i'w cynnwys mewn cytundeb cenedlaethol gyda sefydliadau partner y mwyngloddiau perthnasol
- Parhau i ymchwilio i effaith dŵr mwyngloddiau a datblygu cynlluniau adfer yn unol â Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru a chyrrff dŵr sy'n methu
- Gweithredu rheolaethau arfer gorau ac adfer mewn pyllau glo segur. Rhaglen wedi'i blaenoriaethu (fesul cam) a ariennir gan DECC
- Gweithredu rheolaethau arfer gorau ac adfer mewn mwyngloddiau metel segur.
- Defnyddio cyllid referniw a chyfleoedd ariannu i fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ac Arloesi a Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu atebion adferol a thrin dŵr mewn safleoedd mwyngloddio tra'n sicrhau gwelliannau i'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio
- Mae CNC yn ymgymryd â rhaglen waith i ymchwilio i ollyngiadau o fwyngloddiau metel segur i gyrrff dŵr sy'n methu, gan gydweddu â Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru.

Newidiadau i lif a lefelau dŵr naturiol cenedlaethol

- Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn galluogi i drwydded echdynnu a chronni dŵr gael ei symud i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Dod â gwaith tynnu dŵr sydd wedi'i eithrio ar hyn o bryd o fewn trwydded (Awdurdodiadau Newydd)
- Ymchwiliadau i asesu effeithiau amgylcheddol cronni dŵr a mesurau lliniaru posibl
- Blaenoriaethu atebion i fynd i'r afael â methiannau cyrrff dŵr oherwydd echdynnu dŵr
- Yn unol â Strategaeth Dŵr Cymru Llywodraeth Cymru, chwilio am ffyrdd o leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd dŵr
- Diwygio Glastir er mwyn cefnogi a blaenoriaethu'n well y gwaith o reoli cadwraeth gwlyptiroedd/mawndiroedd Natura 2000 a rheoli lefelau dŵr .
- Cwblhau camau i fynd i'r afael â thrwyddedau tynnu dŵr a nodwyd yn y broses Adolygu Caniatâd eu bod yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd.
- Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi partneru gydag Aqualogic i ddarparu teclynnau arbed dŵr am ddim i gwsmeriaid
- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Rhaglen Genedlaethol Adfer Mawndiroedd Llywodraeth Cymru.
- Targedu mesurau rheoli tir drwy gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir a chytundebau Adran 15 i liniaru llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth a lleihau effaith draenio i wella bioamrywiaeth a sicrhau statws cadwraeth ffafriol.
- Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi partneru ag Aqualogic i ddarparu teclynnau arbed dŵr am ddim i gwsmeriaid, ewch i <https://aqualogicwc.co.uk/store/dcww/>

Newidiadau i lif naturiol a lefelau dŵr cyrrff dŵr targed lleol

- Gwella llifoedd a reoleiddir: Rheoli rhyddhau dŵr yn briodol, rheoli cronni dŵr yn briodol
- Rheoli tynnu dŵr: Rheoli patrwm/amseru tynnu dŵr

Materion ychwanegol sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr

Rhywogaethau estron goresgynol cenedlaethol

- Parhau i wella gwybodaeth am ddostraniad rhywogaethau a gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o rywogaethau estron goresgynol newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau fel systemau cofnodi ar-lein a ffôn clyfar
- Helpu i weithredu rheoliad yr UE ynghylch Rhywogaethau Estron Goresgynol a

Rhywogaethau estron goresgynol cenedlaethol

Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i wella'r broses o gydgyssylltu mesurau a chreu rheolaethau cryfach ar lwybrau mynediad ar gyfer y rhywogaethau mwyaf niweidiol, yn enwedig y rhai sy'n cyrraedd cyrff dŵr aberoedd ac arfordirol

- Gweithredu'r strategaeth Brydeinig ddiwygiedig ar rywogaethau goresgynol
- Gweithio gyda phartneriaid a chefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion newydd ac arloesol megis gwaith CABI ar fio-reolaethau ar gyfer rhywogaethau estron goresgynol sy'n lledaenu'n eang a datblygu fframwaith strategol cydweithredol i wella'r gwaith o gydgyssylltu gweithredu ar rywogaethau estron goresgynol o fewn Cymru (Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN))
- Yn unol â'r rheoliad a weithredwyd gan DEFRA ar gyfer Lloegr o dan y Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad, gwahardd gwerthu 2 blanhigyn dyfrol estron goresgynol yng Nghymru: Corchwyn Seland Newydd (*crassula helmsii*) a chyfrdwy (*Azolla filiculoides*)
- Datblygu a hyrwyddo mabwysiadu codau ymddygiad a mentrau bioddiogelwch, a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau rhywogaethau estron goresgynol ar draws cynefinoedd a rhywogaethau morol, daearol a dŵr croyw Natura.
- Sicrhau bod peryglon i gynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 a achosir gan rywogaethau goresgynol estron yn cael eu rheoli drwy integreiddio arferion gorau bioddiogelwch mewn cyfundrefnau rheoleiddio priodol.
- Cefnogi ymchwil i dulliau rheoli a dileu effeithiol ar gyfer rhywogaethau estron goresgynol (morol, daearol a dŵr croyw) sy'n cael effeithiau sylweddol ar Natura 2000.
- Cynnal asesiadau risg i nodi rhywogaethau estron goresgynol â blaenoriaeth ar gyfer camau lliniaru a rheoli ar lefel Prydain a lefel genedlaethol

Cemegau cenedlaethol

- CNC i bennu gwerthoedd terfyn allyriadau ar gyfer cemegau penodol a ryddheir o ddiwydiannau cymwys a reoleiddir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol
- Ymchwilio i faterion sy'n dod i'r amlwg a llwybrau cemegau i'r amgylchedd dŵr megis Rhaglen Ymchwilio i Gemegau y DU a'r prosiect monitro goddefol
- CNC yw un o'r awdurdodau gorfodi yng Nghymru ar gyfer rheoleiddio cofrestru, gwerthuso, awdurdodi a chyfyngu ar gemegau (REACH)
- Canllawiau ar ddefnyddio plaladdwyr mewn ardaloedd gwarchoddedig ac ar ein hystâd goed
- CNC yw'r awdurdod cymwys a gorfodi ar gyfer Rheoliad Llygryddion Organig Parhaol (POP) yr UE
- Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar fesurau'r DU, yr UE a byd-eang fel Confensiwn Minamata ar Fercwri. CNC yw'r awdurdod cymwys yng Nghymru ar gyfer rheoliadau'r UE sy'n gweithredu Confensiwn Minamata yn y DU.
- Mae gan gwmnïau dŵr yng Nghymru nifer o fesurau fel pestsmart a'r cynllun gwaredu plaladdwyr sydd â'r nod o leihau faint o blaladdwyr sy'n mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr

Atodiad C: Gweithio gyda'n Gilydd - crynodeb o ymatebion

Yr ymgynghoriad Gweithio Gyda'n Gilydd oedd yr ymgynghoriad cyntaf cyn cyhoeddi'r cynlluniau rheoli basnau afonydd wedi'u diweddarau ac fe barodd am 6 mis rhwng 22 Mehefin 2018 a 22 Rhagfyr 2018 ar ein gwefan fel rhan o'r gofynion o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Diben yr ymgynghoriad oedd:

- amlinellu'r 'Datganiad o Gamau' i adolygu a diweddarau'r cynlluniau erbyn 2021.
- gofyn i randdeiliaid sut hoffent gyfrannu.
- adeiladu ar ein rhwydwaith presennol o gysylltiadau ar gyfer y cynlluniau wedi'u diweddarau a chefnogi datblygiad y Datganiadau Ardal.

Cysylltwyd â thros 700 o randdeiliaid a oedd yn cynnwys sefydliadau cenedlaethol a'r rhanddeiliaid hynny a fu'n rhan o'r adolygiad o Gynlluniau Rheoli Basn Afon cynharach. Ni chynhaliwyd unrhyw ddirwyddiadau ymgysylltu ar wahân, codwyd ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy rwydweithiau presennol ac ymgysylltiad parhaus (gan gynnwys drwy'r gwaith Datganiadau Ardal). Ceisiwyd barn gan Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) a oedd newydd ei ffurfio hefyd. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd hysbysiadau am yr ymgynghoriad yn y Western Mail, The Leader a'r London Gazette fel sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017. Buom hefyd yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gefnogi hysbysebu a gweithio ar draws ffiniau.

Daeth cyfanswm o 26 o ymatebion i law yn bennaf gan y trydydd sector o grwpiau hamdden, cadwraeth a physgodfeydd. Cafwyd ymatebion gan y sectorau canlynol hefyd: Busnes a Diwydiant, Llywodraeth Leol, Rheoli Tir, Mordwyo a Mwyngloddio/Chwarela. Ymatebodd y sefydliadau canlynol:

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Grŵp Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru, Canŵ Cymru, Ceidwaid Afon Hafren, Innogy Renewables Ltd, Clwb Pysgota Ridgeway, Cymdeithas Bysgota'r Rhyl a Llanelwy, Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd, Conwy a Gwynedd, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Caer, RSPB, Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid, Cyngor Abertawe, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, PLANED/Fforwm Arfordir Sir Benfro, Dŵr Cymru, Seafish, Energy UK, y Cyngor Defnyddwyr ar gyfer Dŵr, Glandŵr Cymru, Afonydd Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Natural England, Associated British Ports, yr Awdurdod Glo ac NFU Cymru.

Cawsom naw ymateb ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru, pedwar ymateb ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy a derbyniwyd 13 o ymatebion ar gyfer 'Cymru gyfan'. Ni wnaeth un ymatebydd sylwadau ar raddfa ei ymateb.

Hoffai Cyfoeth Naturiol Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd am roi o'u hamser i gyfrannu. Rydym yn ddiolchgar am y sylwadau a ddaeth i law. Bydd yr ymatebion yn ein helpu i lywio sut rydym yn ymgysylltu ac yn gweithio gydag eraill ar ddatblygu'r Datganiadau Ardal a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd diweddaraf. Nodwyd y pwyntiau a wnaed a byddwn yn mynd i'r afael â'r sylwadau yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Mae'r tudalennau canlynol yn nodi crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ynghyd â'n ymateb.

Cwestiwn ymgynghori 1:

A yw'r rhaglen a amlinellwyd yn cynnwys yr holl gamau sylweddol angenrheidiol i adolygu a diweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon?

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y rhaglen yn cynnwys y camau angenrheidiol i adolygu a diweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon. Awgrymwyd y dylid cynnwys amlinelliad o sut a phryd bydd y gwahanol asiantaethau yn cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r cynllun.

Awgrymwyd y dylid cyfeirio at sgrinio o dan Reoliadau Asesiadau amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) a'r Rheoliadau Cynefinoedd. Ar gyfer yr ymgynghoriad ar y materion rheoli dŵr sylweddol, hoffai rhai ymatebwyr weld diweddariad ar gynnydd camau gweithredu y cynlluniau rheoli basn afon presennol er mwyn helpu i nodi meysydd ffocws/blaenoriaethu posibl ar gyfer y cynlluniau wedi'u diweddarau ac asesiad o'r gwaith ac effeithiolrwydd cynlluniau blaenorol a gwblhawyd. Mynegodd un sefydliad siom am y cynnydd a wnaed mewn cylchoedd blaenorol. Byddent yn hoffi gweld dull gwahanol ar gyfer y cylch nesaf gyda mwy o bwyslais ar ddull gweithredu traws-sector.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut bydd deddfwriaeth Cymru yn cael ei hystyried yn y cynlluniau a arweinir gan Loegr. Anogwyd CNC i barhau i weithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei ystyried ar gyfer cynlluniau trawsffiniol.

O ran dosbarthu, roedd un ymatebydd yn pryderu am y gwahaniaethau yn yr amserlen rhwng cylch cynllunio cyfredol CNC, Asiantaeth yr Amgylchedd a Dŵr Cymru. Mae hyn yn golygu y bydd y drydedd rownd o gynlluniau rheoli basn afon yn cael ei chyhoeddi cyn i fanteision y gwelliannau a wnaed gael eu cofnodi. Anogwyd CNC i ystyried cynhyrchu diweddariad dosbarthu interim yn gynnar yn 2020.

Dywedodd un ymatebydd nad oedd cynlluniau blaenorol wedi cynnwys llawer o ymdrech i fynd i'r afael â dyfroedd Trosiannol ac Arfordirol (TraC). Hoffai'r grŵp hwn gael ei ymgynghori ar faterion dalgyrch perthnasol sy'n ymwneud â materion dŵr TraC yn ogystal â dyfroedd croyw ar gyfer y porthladdoedd hynny sydd â phorthwyr dŵr croyw/tynnu dŵr croyw. Cododd sawl sefydliad bryderon am oblygiadau BREXIT ar y broses cynlluniau rheoli basn afon.

Cyfeiriodd un ymatebydd at gylch gwaith Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mynegwyd pryder ganddo pe bai'r fforwm yn gweithredu ar lefel strategol 'Cymru gyfan', bydd yn bosibl diystyru barn a chyfleoedd o'r Ardaloedd Basn Afon. Teimlwyd bod y Paneli Cyswllt yn darparu fforwm strategol cyffredinol er mwyn i'r holl bartneriaid gyfrannu ato. Dywedodd yr ymatebydd fod cwmpas daearyddol y Paneli Cyswllt yn broblem yn ystod y cylch blaenorol.

Dywedodd un ymatebydd y dylid canolbwyntio ar broblemau ymarferol sy'n effeithio ar y gwaith o reoli tir a dalgylchoedd. Gellid mynd i'r afael â'r problemau hyn trwy sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen ar lefel dalgyrch ar gyfer pob Ardal Basn Afon ar ddechrau'r Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau. Byddai hyn yn caniatáu i'rartneriaid gyfrannu ar lefel Ardal Basn Afon.

Ymateb CNC:

Nodir ein dull o sgrinio Cynllun Rheoli Basn Afon 3 o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (a elwir yn Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol) yn yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau. Wrth wneud ein penderfyniad byddwn yn cynnal adolygiad o'r AAS o Gynllun Rheoli Basn Afon 2 i bennu effeithiau cadarnhaol a negyddol gwirioneddol yn ystod y cylch cynllunio. Bydd hyn yn llywio ein sgrinio AAS o Gynllunio Rheoli Basn Afon 3 ac os ymgwymerir ag AAS, caiff ei gyflwyno mewn cyhoeddiadau perthnasol. Os na fyddwn yn cynnal AAS, gan ein bod yn ystyried bod Cynllun Rheoli Basn Afon 3 yn fân addasiadau o'r 2il gylch, byddwn yn cyhoeddi ein cyfiawnhad dros y penderfyniad hwn.

Cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Rheoli Basn Afon wedi'i ddiweddarau terfynol i ystyried a yw'r cynllun yn debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw safleoedd Natura 2000.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed ar y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, rydym yn bwriadu darparu diweddariad yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon drafft. O ran dosbarthu, mae penderfyniad i gyhoeddi'r dosbarthiad bob 3 blynedd wedi'i wneud gyda'r dosbarthiad terfynol i'w cyhoeddi yn 2021.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd erbyn 31 Hydref 2019. Nodir y rhwymedigaeth i adolygu a diweddarau'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn ein cyfraith ddomestig, Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017, a bydd y rhwymedigaethau hyn yn parhau i fod yn gymwys. Felly, byddwn yn cwblhau'r gwaith o adolygu a diweddarau'r cynlluniau yn 2021 o dan y set bresennol o Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae CNC yn recriwtio rolau cyfnod penodol ychwanegol er mwyn sicrhau adnoddau gwell ar gyfer rhywfaint o'r gwaith polisi, rheoliadau a rheoli digwyddiadau allweddol a ragwelir a rheoli effeithiau uniongyrchol mwyaf tebygol unrhyw ymadawiad ac unrhyw risgiau pontio yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae hyn yn cynnwys 2 swydd yn canolbwyntio ar ddŵr.

Sylwn ar y sylwadau ar waith blaenorol y Paneli Cyswllt, y gwaith o ddatblygu Fforwm Rheoli Dŵr Cymru newydd, a'r awgrym i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Trafodir hyn gan y fforwm.

Cwestiwn ymgynghori 2:

Sut rydych am weithio gyda ni wrth ddiweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon? Dylech gynnwys y lefel o ymrwymiad (hysbysu, ymgynghori neu weithio gyda'n gilydd i ddatrys problemau) rydych am ei gael a nodi pa ddulliau o weithio y byddai'n well gennych.

Roedd pob ymatebydd yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r gwaith a gweithio gyda'i gilydd. Nododd rhai y byddent yn hoffi cael eu hymgyngori ar faterion penodol er mwyn dod o hyd i atebion i fynd i'r afael â'r materion. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am gael eu hysbysu a'u hymgyngori.

Dyweddodd nifer o sefydliadau fod eisiau mwy o ymgysylltu lleol i fynd i'r afael â materion ar raddfa corff dŵr, afon neu ddalgylch. Cyfeiriwyd at y gweithdai a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf a byddai rhai o'r ymatebwyr yn hoffi gweld dull gweithredu tebyg ar gyfer y cynllun wedi'i ddiweddarau. Cynigiodd grŵp trydydd sector i rannu ei ddata.

Dyweddod un ymatebydd y dylai Fforwm Rheoli Tir Cymru a Fforwm Rheoli Dŵr Cymru lywio gwaith Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol. Bydd yn pryderu os bydd unrhyw ddyblygu o ran ymdrech yng ngwaith y fforymau.

Ymateb CNC:

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r WWMF i helpu i lunio gwaith ymgysylltu yn y dyfodol wrth i ni ddatblygu'r Cynllun Rheoli Basn Afon nesaf. Ar gyfer y trydydd cylch o Gynlluniau Rheoli Basn Afon nid ydym yn bwriadu cynnal gweithdai dalgyloch yn yr un fformat â'r rhai a drefnwyd ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf, gan y bydd ymgysylltu lleol yn digwydd drwy ddatblygu'r Datganiadau Ardal drwy weithdai a chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau Ardal helpu i hwyluso'r gwaith o gyflawni Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ar lefel leol. Bydd y 7 Datganiad Ardal yn dwyn ynghyd ddata, gwybodaeth a ffyrdd o weithio gydag eraill ym mhob ardal, y pwysau ar adnoddau naturiol a'r cyfleoedd i'w cyflawni i bobl a'r amgylchedd ym mhob ardal. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu Datganiad Ardal yn cynnwys materion rheoli sy'n effeithio ar statws cyrff dŵr, ond bydd hefyd yn canolbwyntio ar agweddau ac ymddygiad y cyhoedd wrth reoli dŵr yn gynaliadwy o fewn ffiniau pob Datganiad Ardal. Bydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn atgyfnerthu trefniadau cydweithio ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'r nodau llesiant a bennwyd gan bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dylanwadu ar ddatblygiad Datganiadau Ardal.

Sylwn ar y sylwadau a wnaed ar y cysylltiadau rhwng y fforymau a bod adrannau ysgrifenyddol y fforymau'n cyfarfod er mwyn trafod materion sy'n trawstorri.

Cwestiwn ymgynghori 3:

A oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut y gallwn wella ein dulliau cyfathrebu â chi ar gyfer diweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon? A ydym wedi nodi'r sefydliadau cywir y mae angen iddynt fod yn rhan o adolygu a diweddarau'r cynlluniau rheoli basn afon (gweler Atodiad 5)?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y sefydliadau cywir yn rhan o'r broses adolygu. Awgrymwyd bod y sefydliadau canlynol yn cael eu hychwanegu at y rhestr: Afonydd Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr yfed, Ymddiriedolaethau Afonydd, y Diwydiant Cynhyrchu Ynni Dŵr, Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru, Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro ac Eryri Bywiol, Canŵ Cymru, Energy UK, Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain, Network Rail, Ymddiriedolaeth Camlesi, Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cyf a'r Nature Friendly Farming Network. Nodwyd er bod Gorsaf Bŵer Penfro wedi'i henwi, awgrymwyd cynnwys gorsafoedd pŵer/gweithfeydd eraill yng Nghymru. Roedd un sefydliad o'r farn fod rôl y Cyngor Defnyddwyr ar gyfer Dŵr wedi'i chamliwio yn Atodiad 5.

Dyweddod un ymatebydd fod ymgysylltu'n cael ei annog gyda grwpiau lleol a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus gan ei fod o'r farn bod y rhain yn creu cysylltiadau da gyda staff lleol CNC. Dywedwyd bod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cymeradwy. Roeddent o'r farn y dylid annog sefydliadau i gyfeirio at y cynlluniau mewn unrhyw gynlluniau a gynhyrchir gan sefydliadau eraill, gan esbonio sut y bodlonwyd y ddyletswydd gyfreithiol honno.

Dyweddod un ymatebydd fod negeseuon negyddol yn cael eu cyfleu am y sector amaethyddol. Awgrymwyd bod angen proses gyfathrebu fwy cytbwys. Er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd y diwydiant ffermio, gallai hyn gael ei raeadru drwy Cyswllt Ffermio neu drwy sefydliadau sy'n gweithio gyda ffermwyr. Roedd yr ymatebydd hefyd yn cwestiynu dilysrwydd y penderfyniadau a wnaed a'r casgliadau a wnaed ar sail y rhaglen samplu a monitro.

Awgrymwyd y dylai aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru gynnwys cynrychiolaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd, o ystyried y cysylltiadau trawsffiniol o fewn Ardaloedd Basn Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren.

Ymateb CNC:

Dylid nodi bod y sefydliadau a restrir yn Atodiad 5 wedi cael eu rhoi fel enghreifftiau o sefydliadau ar gyfer pob un o'r sectorau. Ymddiheurwn fod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi'i roi yn y golofn sector Diwydiant Dŵr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid allanol presennol ac yn cysylltu â'r sefydliadau newydd os nad ydynt eisoes ar restr rhanddeiliaid y Cynllun Rheoli Basn Afon. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar gyfer cylchoedd blaenorol hefyd.

Mewn ymateb i sylwadau am gyfathrebu gyda grwpiau ffermio, byddwn yn gwirio a yw Cyswllt Ffermio ar restr rhanddeiliaid y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Sefydlodd WLMF is-grŵp ym mis Ionawr 2017, lle cytunwyd i nodi cyrff dŵr lle mae angen datrys effeithiau sy'n deillio o amaethyddiaeth. Mae Cyswllt Ffermio wedi darparu cymorth a chynghor mewn rhai dalgylchoedd blaenoriaeth mewn achosion lle'r oedd materion amaethyddol yn gyfrifol am beidio â chyflawni statws da. Mae gwaith wedi'i wneud ar lunio rhestr o ddalgylchoedd yr ail haen lle bydd Cyswllt Ffermio yn targedu gwaith cynghori.

Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaed am aelodaeth Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Mae'r Environment Agency yn aelod o'r Fforwm

Cwestiwn ymgynghori 4(a):

A ydym wedi nodi'r holl gynlluniau a strategaethau sy'n effeithio ar y cynlluniau rheoli basn afon neu yr effeithir arnynt ganddynt? (Atodiad 3 y ddogfen ymgynghori).

Dyweddwyd wrthym fod angen i ni fod yn ymwybodol o'r 22 o gynlluniau nad oeddent wedi'u rhestru. Dyma rai enghreifftiau: Cynlluniau Adfer Natur, Cynllun Morol Cymru a Chynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff

Argymhellwyd y gwelliannau canlynol:

- Blaengynlluniau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau i gael eu diwygio i "gynlluniau ac adroddiadau sy'n ofynnol gan y ddyletswydd bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth yn adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Diwygio pennawd y mater o "cyflenwad dŵr" i "y diwydiant dŵr".
- Diwygio teitl y cynllun/strategaeth o "Blaenoriaethau Dŵr Ymdrochi" i Broffiliau Dŵr Ymdrochi.

Dyweddod un ymatebydd y gallai fod yn fuddiol ystyried ymhellach sut mae rheoli dŵr daear yn ardaloedd y meysydd glo yn rhyngweithio â chynlluniau a strategaethau eraill.

Cyfeiriodd un ymatebydd at waith Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol, sydd wedi creu glasbrint ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau o ran rheoli tir.

Ymateb CNC:

Rydym yn cydnabod y cynlluniau ychwanegol a nodwyd a bod alinio lle y bo'n bosibl yn hanfodol wrth i ni ddatblygu'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Byddwn yn cywiro'r gwallau a nodwyd hefyd.

Cwestiwn ymgynghori 4b:

A allwch chi nodi unrhyw gyfleoedd i integreiddio'r cynlluniau rheoli basn afon gyda chynlluniau a strategaethau eraill?

Dywedodd un ymatebydd nad yw cylch cynllunio'r diwydiant dŵr yn cyd-fynd â chylch 6 blynedd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Byddent yn hoffi gweld cysondeb o ran amserlenni'r holl gynlluniau a strategaethau.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai CNC, wrth baratoi'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon, sicrhau eu bod yn darparu sail dystiolaeth gadarn i alluogi Llywodraeth Cymru i dargedu ei chymorth ar gyfer rheolwyr tir drwy'r Rhaglen Rheoli Tir arfaethedig. Cyfeiriwyd at Gynlluniau Cyfalaf Naturiol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Awgrymwyd y byddai datblygu cynlluniau cyfalaf naturiol priodol a realistig i gefnogi hyn yn werthfawr.

Ymateb CNC:

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd a awgrymir. Mae'r amserlen ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'i nodi yn y Rheoliadau ac felly rydym wedi'n cyfyngu gan yr amserlen ddeddfwriaethol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio'n effeithiol gydag eraill.

Cwestiwn ymgynghori 4c:

Sut rydych yn meddwl y gall yr ymgynghoriad ar y cynlluniau rheoli basn afon a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd sydd wedi eu diweddarau gael ei gydlynu orau?

Roedd ymatebwyr o blaid integreiddio'r ddau gynllun. Awgrymwyd y dylai'r cynlluniau gael eu cydlynu fesul afon. Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid ymgynghori ar y ddau gynllun ar yr un pryd ar wefan a hysbysu rhanddeiliaid drwy e-bost, gan ddefnyddio porth ar-lein.

Dywedodd un ymatebydd, o gofio nad oedd llawer o gyrff dŵr yn cyrraedd statws da oherwydd addasiadau ffisegol, bod angen mwy o gyswllt rhwng y ddau gynllun. Roedd yn amlwg bod y rhan Lloegr o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Dyfrdwy 2016 yn cynnwys mesurau i gyflawni amcanion penodol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a oedd yn llawer mwy tryloyw. Hoffai'r ymatebydd weld dull gweithredu Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau Cymru.

Ymateb CNC:

Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a wnaed. Caiff y cynlluniau eu cyhoeddi ar ein gwefan a'u hanfon drwy'r e-bost at randdeiliaid. Byddwn yn edrych ar ddull gweithredu Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn trafod sut gallwn wella'r cysylltiadau rhwng y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar fethiannau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr sy'n gysylltiedig ag addasiadau ffisegol.

Cwestiwn ymgynghori 5:

Pa gyfleoedd y gallwch eu nodi o ran datblygu datganiadau ardal a fyddai'n cydweddu â'r cynlluniau rheoli basn afon?

Dywedodd sawl grŵp y byddent yn hoffi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal a Chynlluniau Rheoli Basn Afonydd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn anodd ateb y cwestiwn hwn heb wybod beth oedd y Datganiadau Ardal terfynol yn debygol o'i gynnwys. Cafwyd sylwadau ar yr ansicrwydd ynghylch amseru paratoi a chyhoeddi'r Datganiadau Ardal. Teimlwyd bod angen mwy o eglurhad ac arweiniad ar ddiben a nod Datganiadau Ardal.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod y Datganiadau Ardal ychydig yn groes i'r dull rheoli dalgylch cyfan cymeradwy, gyda rhai afonydd yn cael eu rhannu ar draws ardaloedd gwahanol. Hefyd, teimlodd ymatebydd fod amwysedd sylweddol yn parhau ynghylch y broses a ddefnyddir i ddatblygu Datganiadau Ardal a'u cwmpas ar ôl hynny. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â chylch gwaith y Datganiadau Ardal sy'n effeithio ar Ardal Basn Afon Hafren. Gan fod Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren yn cael ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd, barnwyd y gallai hyn effeithio ar y 'cydgysylltu' gyda'r Datganiadau Ardal. Awgrymwyd y dylai Gweinidogion Cymru ystyried sefydlu Ardal Basn Afon ar ffurf Cymru gan ddilyn model yr Alban.

Cafwyd sylwadau yn nodi bod Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn llawer mwy manwl o ran cynnwys ac amseriad y Cynlluniau na'r darpariaethau cyfatebol ar gyfer Datganiadau Ardal. Yn rhannol am y rheswm hwnnw, y Cynlluniau ddylai fod y cynlluniau rheoli cyffredinol ar gyfer yr amgylchedd dyfrol, gan bennu'r agweddau sy'n ymwneud â dŵr yn y Datganiadau Ardal er mwyn osgoi dyblygu.

Nodwyd bod angen dull gweithredu ar lefel ecosystem ar gyfer rheoli'r holl weithgareddau. Teimlwyd nad yw'r Datganiadau Ardal yn ystyried rheoli adnodd neu weithgaredd unigol heb ystyried ffactorau eraill. Awgrymwyd y dylid integreiddio'r Datganiadau Ardal gyda'r Cynllun Morol, er mwyn helpu i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd diangen. Gwnaed nifer o sylwadau ei bod yn bwysig i Ddatganiadau Ardal, Cynlluniau Rheoli Basn Afon, cynlluniau draenio a dŵr gwastraff a chynlluniau busnes cwmnïau dŵr ystyried ei gilydd.

Ymateb CNC:

Gweler y sylw ynghylch Datganiadau Ardal yn y crynodeb o ymatebion ar gyfer Cwestiwn 2.

Nodir eich sylwadau ar gefnogaeth a phryderon ynglŷn â chydgyssylltu'r Datganiadau Ardal a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon ac fe'u rhannwyd â'n Grŵp Ymarferwyr Datganiadau Ardal. Mae manylion y rhai a oedd yn dymuno bod yn rhan o'r broses ymgysylltu'r Datganiadau Ardal wedi cael eu rhannu hefyd.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer cynllunio a rheoli dalgylchoedd trawsffiniol. Byddwn yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar Gynllun Rheoli Basn Afon Hafren.

Cwestiwn ymgynghori 6:

A oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar ein fforwm newydd, Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, wrth iddo barhau i gyflwyno rôl y paneli cyswllt

ond wrth iddo barhau i ymgymryd â rôl fwy sy'n adlewyrchu gwaith Fforwm Rheoli Tir Cymru?

Roedd cefnogaeth i greu'r WWMF sydd wedi disodli'r Paneli Cyswllt. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y fforwm newydd yn caniatáu cyfathrebu ar draws y tair Ardal Basn Afon o fewn ffiniau Cymru. Roedd rhai sefydliadau yn ansicr ynghylch sut bydd materion lleol yn cael eu datrys. Teimlwyd hefyd y dylai'r aelodaeth adlewyrchu cynrychiolaeth ddaearyddol ledled Cymru a chwmpasu pob sector.

Cyfeiriwyd at 'wiriad iechyd' o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar lefel yr UE. Tynnwyd sylw at y diffiniad o gorff dŵr sy'n methu a'r rheol 'un yn golygu pob un', y teimlwyd ei bod yn creu darlun anwir o statws cyrff dŵr.

Gwnaed sylw tebyg â'r hyn yng nghwestiynau 1-3 ar waith blaenorol y Paneli Cyswllt a'r gwaith o ddatblygu Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

Ymateb CNC:

Mae'r WWMF wedi cyfarfod ddwywaith. Byddwn yn adolygu cylch gorchwyl ac aelodaeth y Fforwm er mwyn rhoi mwy o eglurder. Bydd gwybodaeth am y fforwm ar gael ar ein gwefan.

Sylwn ar y sylwadau a wnaed ar 'wiriad iechyd' o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar lefel yr UE.

Cwestiwn ymgynghori 7:

Rydym yn cynnig esbonio sut rydym wedi ystyried eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn pan fyddwn yn ymgynghori ar faterion rheoli dŵr sylweddol yn 2019.

Yn flaenorol, rydym wedi cyhoeddi dogfen ymateb ar gyfer pob ymgynghoriad. A ydych yn fodlon fod hwn yn ddull gweithio rhesymol?

Roedd yr holl ymatebwyr yn cefnogi'r dull o gynnwys esboniad o sut rydym wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau hwn

Sylwadau cyffredinol:

Roedd un ymatebydd o'r farn ein bod yn defnyddio gormod o acronymau a therminoleg aneglur ar Arsylwi Dyfroedd Cymru. Roedd un ymatebydd yn croesawu'r newyddion bod CNC yn bwriadu esmwytho'r llwybr pysgod ar ddau bwynt ar Ddwyrain y Cleddau. Hefyd soniodd y grŵp am bryderon a godwyd ynghylch ffermio llaeth dwys ar Ddwyrain y Cleddau, lleihad yn y boblogaeth o bysgod ac amrywiadau yn y llif.

Ymateb CNC:

Mae ymatebion ar faterion lleol wedi'u rhannu â'n Timau Gweithrediadau. O ran sylwadau ar y defnydd o derminoleg; byddwn yn sicrhau bod y derminoleg yn cael ei hesbonio fel ei bod yn hawdd i'w deall i'n rhanddeiliaid.